

AROLYGON DEFNYDD IAITH 2004-06



**BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD**

Noddir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government



© Hawlfraint Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2008

Cyhoeddwyd gan:
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd
Cymru
CF10 1AT

Ffôn: 029 20878000

www.byig-wlb.org.uk

Dyluniwyd y clawr gan:
Hughes Advertising and Design

Argraffwyd gan:
Stephens and George Print Group

ISBN 978095353345 9

Arolygon Defnydd Iaith 2004–06

Cynnwys:

1. Cyflwyniad	6
2. Pa ganlyniadau sy'n newydd ers Arolwg 2004?	6
3. Detholiad o'r prif ganlyniadau	7
4. Y CANLYNIADAU	8
4.1 Gallu siarad Cymraeg y boblogaeth gyfan	8
4.2 Rhuglder y boblogaeth gyfan	8
5. Rhuglder siaradwyr Cymraeg	9
6. Amllder siarad Cymraeg gan siaradwyr Cymraeg	12
7. Iaith y sgwrs ddiweddaraf gan siaradwyr Cymraeg 16 oed a throsodd	15
8. Amrywiaethau daearyddol	17
9. Cyfansoddiad ieithyddol y cartref	19
10. Defnydd o'r iaith mewn sefyllfaoedd gwahanol gan siaradwyr Cymraeg	20
10.1 Gartref	20
10.2 Â pherthnasau	21
10.2.1 Â mab/merch	21
10.2.2 Â'r tad/mam/taid/nain/perthnasau eraill	21
10.3 Gyda ffrindiau; gyda'r cymydog agosaf; ac wrth ymgymryd â gweithgareddau pob dydd	22
10.4 Yn yr ysgol	23
11. Iaith addysg	24
11.1 Cyn-ysgol	24
11.2 Addysg gynradd	24
11.3 Addysg uwchradd	25
11.3.1 Iaith astudio pynciau	25
11.4 Addysg bellach ac uwch	27
12. Siaradwyr Cymraeg mewn gwaith	28
12.1 Iaith a ddefnyddir â goruchwylwyr/rheolwyr llinell; â chydweithwyr; â phobl sy'n cael eu goruchwylio/rheoli yn uniongyrchol; â chleientiaid	28
12.2 Iaith a ddefnyddir i wneud gwaith gweinyddol	29
12.3 Ysgrifennu Cymraeg yn y gwaith	29
12.4 Hyfforddiant gwella eu Cymraeg	29
12.5 Hyfforddiant cysylltiedig-â-gwaith yn y Gymraeg	29
12.6 Bathodynau yn dangos eu bod yn gallu siarad Cymraeg	29

12.6.1 Cynnig	29
12.6.2 Parodrwydd gwisgo bathodyn	30
12.7 Agwedd cyflogwyr at ddefnyddio'r Gymraeg	30
13. Ysgrifennu Cymraeg siaradwyr Cymraeg 3 oed a throsodd	31
14. Man dysgu Cymraeg siaradwyr Cymraeg 3 oed a throsodd	32
15. Rhai cymariaethau rhyngwladol	34
15.1 Iwerddon	34
15.2 New Brunswick, Canada	34
15.3 Cymuned ymreolus Gwlad y Basg	34
16. TABLAU CANLYNIADAU	35
16.1 Termau	35
16.2 Cyfyngau hyder	35
17. Tablau Awdurdodau Lleol	58
18. Manylion technegol	63
18.1 Cefndir	63
18.2 Methodoleg	63
18.3 Sampl	63
18.4 Ymateb	64
18.5 Amcangyfrif	64
18.6 Gwerthusiad dibynadwyedd	65
18.6.1 Disgrifiad o'u gallu siarad	67
18.6.2 Siaradwyr Cymraeg mewn gwaith	67
19. Llyfryddiaeth a chyfeiriadau	68
20. Copi o'r holiadur a ddefnyddiwyd gydag oedolion	69
21. Copi o'r prif ddarn oedd yn wahanol yn yr holiadur a ddefnyddiwyd gyda phlant	74

Rhestr tablau

Tabl 1 Siaradwyr Cymraeg: disgrifiad o'u gallu	36
Tabl 2 Rhuglder siaradwyr Cymraeg	37
Tabl 3 Nodweddion cefndir siaradwyr rhugl	38
Tabl 4 Siaradwyr Cymraeg: amllder siarad Cymraeg	39
Tabl 5 Siaradwyr Cymraeg 16 oed a throsodd: iaith y sgwrs ddiweddaraf gyda rhywun nad yw'n perthyn	40
Tabl 6 Siaradwyr Cymraeg: pa iaith a siaredir gartref, yn ôl nodweddion y siaradwr	41
Tabl 7 Siaradwyr Cymraeg: pa iaith a siaredir gartref, yn ôl cyfansoddiad y cartref	42
Tabl 8 Siaradwyr rhugl: defnydd gartref yn ôl oed	42
Tabl 9 Siaradwyr Cymraeg: pa iaith a siaredir â'r plant	43
Tabl 10 Siaradwyr Cymraeg: iaith a siaredir â grwpiau gwahanol o bobl	44
Tabl 11 Siaradwyr Cymraeg rhugl dan 16 oed: pa iaith a siaredir yn yr ysgol	46
Tabl 12 Iaith addysg cyn-ysgol	47
Tabl 13 Iaith addysg ysgol gynradd	48
Tabl 14 Iaith addysg ysgol uwchradd	49
Tabl 15 Siaradwyr Cymraeg mewn gwaith: iaith a ddefnyddir â grwpiau gwahanol o bobl yn y gwaith	50
Tabl 16 Siaradwyr Cymraeg mewn gwaith: iaith a ddefnyddir i wneud y gwaith gweinyddu	51
Tabl 17 Siaradwyr Cymraeg mewn gwaith: amllder ysgrifennu Cymraeg yn y gwaith	52
Tabl 18 Siaradwyr Cymraeg mewn gwaith: hyfforddiant gwella eu Cymraeg	53
Tabl 19 Siaradwyr Cymraeg mewn gwaith: hyfforddiant cysylltiedig-â-gwaith yn y Gymraeg	53
Tabl 20 Siaradwyr Cymraeg mewn gwaith: gwisgo bathodynau a pharodrwydd i'w gwisgo	54
Tabl 21 Siaradwyr Cymraeg mewn gwaith: agwedd y cyflogwyr at ddefnyddio'r Gymraeg	55
Tabl 22 Siaradwyr Cymraeg: gallu ysgrifennu Cymraeg	56
Tabl 23 Siaradwyr Cymraeg: man dysgu siarad Cymraeg	57
Tabl 24 Gallu yn y Gymraeg, yn ôl awdurdod lleol	58
Tabl 25 Amllder siarad Cymraeg yn ôl awdurdod lleol	59
Tabl 26 Siaradwyr Cymraeg 16 oed neu'n hŷn: iaith y sgwrs ddiweddaraf, yn ôl awdurdod lleol	60
Tabl 27 Siaradwyr Cymraeg; gallu ysgrifennu Cymraeg, yn ôl awdurdod lleol	61

Tabl 28 Siaradwyr Cymraeg: lle dysgu'r Gymraeg yn ôl nodweddion y siaradwyr yn ôl awdurdod	62
Tabl 29 Manylion yr ymateb i'r cyfweiliadau	64
Tabl 30 Manylion yr ymateb i'r holiaduron	64
Tabl 31 Manylion o'r defnydd o'r Gymraeg a wnaed yn y cyfweiliadau a'r holiaduron a lenwyd yn Gymraeg	64
Tabl 32 Cyfansoddiad ieithyddol y cartref: cymhariaeth rhwng yr ymateb i'r cyfweiliadau a'r holiaduron	65
Tabl 33 Canran yn gallu siarad Cymraeg, yn ôl oedran: cymhariaeth rhwng Arolygon Defnydd Iaith 2004–06 (ar sail gwybodaeth a roddwyd gan ymatebydd y cartref) a Chyfrifiad 2001	65
Tabl 34 Gallu i siarad Cymraeg yn ôl awdurdod lleol (ar sail gwybodaeth a roddwyd gan ymatebydd y cartref)	66
Tabl 35 Siaradwyr Cymraeg yn ôl ymatebydd y cartref: eu gallu yn ôl hunan-arfarniad.	67

1. Cyflwyniad

Comisiynodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg gyfres o dri arolwg defnydd iaith i'w cynnal yn ystod y cyfnod 2004-2006. Cafodd canlyniadau Arolwg Defnydd Iaith 2004 eu cyhoeddi yn 2006.

Nid oedd yn fwrriad gennym geisio mesur newid mewn defnydd iaith o 2004 i 2006 wrth gomisiynu 3 arolwg dros y cyfnod hwn ond yn hytrach cael sampl a fyddai'n ddigon mawr i fod yn sail i amcangyfrifon dibynadwy ar gyfer carfannau arbennig o'r boblogaeth. Llwyddwyd i gael sampl o 7,700 o siaradwyr Cymraeg.

Yn bennaf darparodd Arolwg Defnydd Iaith 2004 amcangyfrifon ar lefel genedlaethol yn unig. Mae'r sampl mwy a geir wrth ddefnyddio Arolygon Defnydd Iaith 2004-06 gyda'i gilydd yn golygu bod modd cynhyrchu amcangyfrifon ar gyfer ardaloedd yr awdurdodau unedol ac ar gyfer mwy o grwpiau penodol o'r boblogaeth, e.e. plant. Felly, mae'r canlyniadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn manylu'n fwy nag a wnaeth adroddiad arolwg 2004. Fodd bynnag, trwy ddibynnu ar samplau a gafwyd yn y cyfnod 2004-06 mae'r canlyniadau hyn hefyd yn cyfeirio at y cyfnod hwnnw, yn hytrach nag at flwyddyn unigol.

Cafodd yr arolygon eu trefnu fel atodiad i Arolwg "Byw yng Nghymru" a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Ceir manylion llawn am y sampl yn Adran 18.

2. Pa ganlyniadau sy'n newydd ers Arolwg 2004?

Dyma ddedoliad o'r canlyniadau sy'n newydd.

- Manylion am ruglder siaradwyr Cymraeg yn ôl awdurdod lleol: yng Ngwynedd ac Ynys Môn mae dros dri chwarter o'r siaradwyr yn dweud eu bod yn rhugl; ym Mlaenau Gwent, Casnewydd a Sir Fynwy llai nag un ymhob 8 o'r siaradwyr sy'n rhugl (Ffigur 4).
- Manylion am ba mor aml y bydd siaradwyr Cymraeg yn siarad Cymraeg yn ôl awdurdod lleol: yng Ngwynedd, Ynys Môn, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin bydd pedwar ymhob pump o'r siaradwyr yn siarad Cymraeg bob dydd. Llai nag un ymhob pedwar o'r siaradwyr sy'n siarad Cymraeg bob dydd yn Sir Fynwy a Chasnewydd (Ffigur 10).
- Patrymau defnydd yn ôl oed mewn sefyllfaoedd gwahanol: er enghraifft, o'r siaradwyr rhugl, 31% o'r rhai 3 i 15 oed sy'n siarad Cymraeg gartref bob amser i'w cymharu â 62% o'r rhai 65 oed neu'n hŷn (Ffigur 17). Gall hynny fod yn adlewyrchu i raddau cyfansoddiad ieithyddol y cartref. 55% o'r siaradwyr rhugl fyddai'n siarad Cymraeg bob amser neu bron pob amser gyda'u plant: byddai 25% yn siarad Saesneg yn bennaf neu bob amser neu bron bob amser gyda'u plant (Tabl 9).
- Iaith addysg: manylion am yr iaith a gafodd ei defnyddio ar wahanol adegau wrth addysgu'r siaradwyr Cymraeg. Er enghraifft, o'r plant 5 i 10 oed rhugl eu Cymraeg roedd 95% yn cael eu dysgu yn yr ysgol gynradd trwy'r Gymraeg yn unig neu'n bennaf (Ffigur 19). O'r plant rhugl yn yr ysgol uwchradd 76% oedd yn derbyn eu haddysg trwy'r Gymraeg neu drwy'r Gymraeg yn bennaf (Ffigur 20). Dysgodd 74% o'r siaradwyr rhugl bwnc Hanes trwy'r Gymraeg bob amser neu bron pob amser tra dim ond 56% ddysgodd Wyddoniaeth trwy'r Gymraeg bob amser neu bron pob amser (Ffigur 21).

- Yn ardal 8 awdurdod lleol yn unig oedd mwyafrif o'r siaradwyr Cymraeg wedi dysgu siarad Cymraeg gartref (Ffigur 32).

3. Detholiad o'r prif ganlyniadau

Mae llawer o ganlyniadau Arolygon 2004–06 yn debyg iawn i'r rhai a ddaeth o Arolwg Defnydd Iaith 2004. Dyma'r un detholiad a gyflwynwyd o'r arolwg hwnnw, wedi diweddarau'r ystadegau ar sail Arolygon 2004–06.

- Roedd 20.5 y cant (588 mil) o bawb 3 oed a throsodd yn gallu siarad Cymraeg. Mae hyn yn cymharu â 20.8 y cant yng Nghyfrifiad 2001.
- 58 y cant (317 mil) o'r siaradwyr Cymraeg oedd yn ystyried eu hunain yn rhugl eu Cymraeg. Amcangyfrifir, felly, fod oddeutu 12 y cant o bawb 3 oed a throsodd yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl. Roedd 83 y cant o siaradwyr Gwynedd yn rhugl, y ganran uchaf yng Nghymru. Yn Sir Fynwy, yr awdurdod â'r ganran isaf, 13 y cant oedd yn rhugl
- Ymhlith y rhai oedd yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg, roedd y ganran a oedd yn ystyried eu hunain yn rhugl yn cynyddu gydag oed. O siaradwyr 3 i 15 oed, 47 y cant oedd yn rhugl, o'i gymharu â 71 y cant o'r siaradwyr dros 65 oed.
- Roedd 63 y cant o'r rhai a oedd yn gallu siarad Cymraeg yn siarad Cymraeg bob dydd. Yng Ngwynedd roedd 90 y cant o'r siaradwyr yn siarad Cymraeg bob dydd, y ganran uchaf yn Nghymru. Yng Nghasnewydd, 22 y cant o'r siaradwyr oedd yn siarad Cymraeg bob dydd, y ganran isaf yng Nghymru. Dywedodd 87 y cant o'r siaradwyr rhugl trwy Gymru eu bod yn siarad Cymraeg bob dydd.
- Er mwyn asesu pa gyfran o sgysiau cyffredin sydd yn Gymraeg, holwyd am iaith y sgwrs ddiweddaraf a gafodd yr ymatebwyr (ac eithrio sgysiau â pherthynas deuluol). Cymraeg oedd iaith y sgwrs ddiweddaraf yn achos 59 y cant o'r siaradwyr rhugl. Amrywiai'r ganran hon o 71 y cant yng Ngwynedd i ddim ym Mlaenau Gwent.

Crynodeb o'r dull holi a ddefnyddiwyd

Cyfwelwyd ag un oedolyn ymhob cartref (am fanylion technegol gweler Adran 18). Wedi cael gwybod pwy yn y cartref oedd, ym marn yr ymatebydd, yn gallu siarad Cymraeg, aed ymlaen i holi'r rheini ymhellach. Yn 2004 a 2005 gwnaed hyn trwy barhau â'r cyfweiliad yn achos yr ymatebydd ond trwy ddefnyddio holiadur i'w ddychwelyd trwy'r bost gyda'r lleill. Yn 2006 defnyddiwyd yr un holiadur â'r ymatebydd hefyd, yn lle parhau â'r cyfweiliad. Datgelodd yr holi pellach yma nad oedd pawb yn cytuno â barn ymatebydd y cartref am eu gallu yn y Gymraeg (Tabl 35). Daw amcangyfrif gwahanol o'r nifer sy'n gallu siarad Cymraeg yn sgil hyn: **546 mil (19.1 y cant o'r boblogaeth 3 oed a throsodd)** yn byw mewn cartref). **Ar y rhain mae'r adroddiad yn canolbwyntio o Adran 5 ymlaen.** Rhaid cofio mai proses un- ffordd oedd yr holi: dim ond y rhai a ystyrid yn siaradwyr Cymraeg yn y lle cyntaf a holwyd ac o ganlyniad dim ond gostyngiad ar yr amcangyfrif cyntaf a oedd yn bosibl.

4. Y CANLYNIADAU


4.1 Gallu siarad Cymraeg y boblogaeth gyfan

Roedd 20.5 y cant o bawb 3 oed a throsodd (588 mil o 2,865 mil) a oedd yn byw mewn cartref yn gallu siarad Cymraeg, ar sail yr atebion a roddodd y rhai y cyfwelwyd â hwy yn Arolwg “Byw yng Nghymru”. Mae hyn yn cymharu â 20.8 y cant (575,061¹) yng Nghyfrifiad 2001 (gweler Tabl 33 yr adroddiad hwn).

4.2 Rhuglder y boblogaeth gyfan

Ceir dadansoddiad o ruglder siaradwyr Cymraeg, yn ôl oedran, yn Adran 5 isod. Trwy gymhwyso'r canrannau hynny i ganrannau'r boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg, gwelir bod canran y boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg yn rhugl ar ei huchaf ymhlith plant 3 i 15 oed.

Ffigur 1 Canran y boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg, yn ôl oedran a rhuglder




Mae gweddill yr adroddiad hwn yn dadansoddi nodweddion y rheini sydd yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg.

¹ 582,368 oedd amcangyfrif Cyfrifiad 2001 o'r nifer oedd yn gallu siarad Cymraeg oedd yn byw mewn cartrefi a sefydliadau cymydol.

5. Rhuglder siaradwyr Cymraeg


58 y cant (317 mil) sydd yn ystyried eu hunain yn rhugl a 21 y cant arall yn gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg (Tabl 2).

Ffigur 2 Siaradwyr Cymraeg: disgrifiad o'u gallu




Mae'r ganran sydd yn ystyried eu hunain yn rhugl yn gostwng o 71 y cant ymhlith pobl 65 oed neu'n hŷn i 47 y cant ymhlith plant 3 i 15 oed.

Ffigur 3 Siaradwyr Cymraeg: canran a nifer sy'n rhugl yn ôl oedran



Yn ardal hanner (11) o awdurdodau unedol Cymru roedd lleiafrif o'r siaradwyr yn ystyried eu hunain yn rhugl (Tabl 24).

Ffigur 4 Siaradwyr Cymraeg: canran a nifer sy'n rhugl yn ôl ardal




O'r rhai ddysgodd siarad Cymraeg gartref, roedd 82 y cant yn rhugl ond o'r rhai ddysgodd yn yr ysgol 34 y cant oedd yn rhugl².

Roedd 90 y cant o'r rhai oedd â'u dau riant yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl eu hunain. Roedd 57 y cant o'r rhai oedd â'u tad yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl eu hunain ond pan oedd y fam yn unig yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl 65 y cant oedd y ffigur cyfatebol.

Roedd 62 y cant (151 mil) o'r gwrywod oedd yn gallu siarad Cymraeg (244 mil) yn ystyried eu bod yn rhugl, o'u cymharu â 56 y cant (166 mil) o'r menywod (298 mil). Roedd canran uwch o'r gwrywod na'r benywod yn rhugl ymhob grŵp oedran. Gellir dweud felly bod benywod yn fwy tueddol o honni eu bod yn gallu siarad Cymraeg pan nad ydynt yn rhugl. Dim ond yn y grŵp 3 i 15 oed y mae canrannau'r gwrywod a'r benywod yn debyg.

² Nid yw hwn ar yr un sail â dadansoddiad 2004: yma, naill ai gartref, yn yr ysgol, neu rywle arall, dysgodd pawb. Ni chaniatawyd cyfrif mwy nag un man.

Ffigur 5 Siaradwyr Cymraeg: canran sy'n rhugl yn ôl oedran a rhyw



Roedd 63% o'r siaradwyr a aned yng Nghymru'n rhugl. Roedd 5% (15 mil) o'r siaradwyr rhugl wedi eu geni y tu allan i Gymru. O'r rhai oedd o dan 11 oed wrth iddynt symud i Gymru, roedd 33% o'r rhai oedd yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl, i'w cymharu â 14% o'r siaradwyr oedd yn 11 oed neu'n hŷn wrth iddynt symud.

O'r siaradwyr a oedd yn ystyried eu bod yn Gymry o ran hunaniaeth, 65% oedd yn rhugl. O'r siaradwyr â hunaniaeth arall, 18% oedd yn rhugl.

Roedd 99% o'r siaradwyr Cymraeg o gefndir ethnig gwyn. O'r siaradwyr o gefndiroedd ethnig eraill (sampl o 34 yn unig), roedd 18% yn rhugl.

6. Amllder siarad Cymraeg gan siaradwyr Cymraeg


Cwestiwn canolog i'r arolwg oedd:

“Ydych chi'n siarad Cymraeg bob dydd, bob wythnos, llai aml neu byth?”

Roedd 63 y cant (342 mil) yn siarad Cymraeg bob dydd ac 17 y cant arall yn ei siarad bob wythnos (Tabl 4).

Fel y gellid disgwyl, mae siaradwyr rhugl yn siarad Cymraeg yn amlach. Dywedodd 87 y cant (276 mil) o'r siaradwyr rhugl eu bod yn siarad Cymraeg bob dydd, o'u cymharu â 29 y cant (66 mil) y rhai nad oeddynt yn rhugl.

Ffigur 6 Siaradwyr Cymraeg: amllder siarad Cymraeg yn ôl rhuglder




Nifer y siaradwyr rhugl = 317 mil

Nifer nad ydynt yn rhugl = 225 mil

O'r gwrywod, siaradai 65 y cant Gymraeg bob dydd tra gwnâi 61 y cant o'r menywod. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod canran uwch o'r siaradwyr gwrywaidd yn ystyried eu hunain yn rhugl.


Ffigur 7 Siaradwyr Cymraeg: amlder siarad Cymraeg yn ôl rhyw



Roedd tua dwy ran o dair y siaradwyr Cymraeg 45 a throsodd yn siarad Cymraeg bob dydd. 63 y cant o'r siaradwyr 30 i 44 oed oedd yn siarad Cymraeg bob dydd, ond lleiafrif—48 y cant—o'r siaradwyr 16 i 29 oed a wnâi. Ymhlith plant 3 i 15 oed, codai'r ganran eto i 66 y cant, gan adlewyrchu, y gellir tybio, ddylanwad yr ysgol.


Ymhlith pobl 16 i 29 y cafwyd y ganran uchaf a oedd yn siarad Cymraeg yn llai aml nag yn wythnosol, 24 y cant, a'r ganran uchaf na fydd byth yn siarad yr iaith, sef 8 y cant.

Ffigur 8 Siaradwyr Cymraeg: amlder siarad Cymraeg yn ôl oedran




Ond fel y soniwyd uchod, mae gwahaniaeth mawr rhwng arferion siaradwyr sy'n rhugl a rhai nad ydynt yn rhugl. Mae Ffigur 9 yn dangos beth yw'r patrwm yn ôl oed. Mae dros 70 y cant o'r siaradwyr rhugl yn siarad Cymraeg bob dydd hyd yn oed ymhlith y grŵp oedran lle mae'r arfer gwannaf, sef ymhlith pobl 16 i 29 oed.

Ffigur 9 Siaradwyr Cymraeg: amlder siarad Cymraeg yn ôl oedran a rhuglder



Yng Ngwynedd, Ynys Môn, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin mae 80 y cant neu'n fwy o'r siaradwyr Cymraeg yn siarad Cymraeg bob dydd. Llai na 25 y cant o'r siaradwyr Cymraeg sy'n siarad Cymraeg mor aml yn Sir Fynwy a Chasnewydd (Tabl 25).

Ffigur 10 Siaradwyr Cymraeg: amlder siarad Cymraeg yn ôl ardal



7. Iaith y sgwrs ddiweddaraf gan siaradwyr Cymraeg 16 oed a throsodd

Gall siarad Cymraeg bob dydd olygu gwahanol bethau i wahanol bobl, a hyd yn oed os bydd rhywun yn siarad Cymraeg bob dydd, nid yw hynny o reidrwydd yn golygu eu bod yn siarad Cymraeg yn amlach na'u bod yn siarad Saesneg. Er mwyn ymchwilio ymhellach i amllder y defnydd felly gofynnwyd i oedolion, *cyn* eu holi am eu barn am amllder eu defnydd,


“Gan feddwl am y sgwrs ddiweddaraf a gawsoch gyda rhywun nad yw'n perthyn i'ch teulu, pa iaith wnaethoch chi ei siarad?”

Sylwer, wrth holi am ddefnydd y tu allan i'r teulu, na fyddir yn cyfrif cyfran sylweddol iawn o sgysiau y rhan fwyaf o bobl. Bydd yr atebion yn adlewyrchu'r posibilrwydd o siarad Cymraeg ym mha rwydwaith bynnag y bu'r ymatebydd yn ymdroi ddiwethaf, yn ogystal â dewis iaith, os oedd y posibilrwydd o siarad Cymraeg ar gael.

Saesneg oedd iaith y sgwrs ddiweddaraf y tu allan i'r teulu i 58 y cant o'r siaradwyr Cymraeg (Tabl 5). Fel yn achos amllder siarad, roedd p'un a oedd y siaradwr yn rhugl neu beidio yn effeithio yn fawr ar yr ateb. Cymraeg oedd iaith y sgwrs ddiweddaraf y tu allan i'r teulu yn achos 59 y cant o'r siaradwyr rhugl, o'i gymharu â 9 y cant nad oeddynt yn rhugl.


Roedd cyfran y sgysiau Cymraeg yn cynyddu gydag oedran. Tra oedd 30 y cant o'r sgysiau yn Gymraeg ymhlith pobl 16-29 oed, 38 y cant oedd y ganran ymhlith pobl 30-44 oed, a 44 y cant ymhlith pobl 45-64 oed, a 48% ymhlith pobl 65 oed ac yn hŷn.

Ffigur 11 Siaradwyr Cymraeg: iaith y sgwrs ddiweddaraf y tu allan i'r teulu yn ôl oedran




Gwelir dylanwad rhuglder yn y siartiau canlynol. Roedd bron hanner sgysiau siaradwyr rhugl oed 16-29 oed yn Gymraeg a'r ganran yn uwch eto ymhlith yr oeddrannau hŷn.

Ffigur 12 Siaradwyr Cymraeg: iaith y sgwrs ddiweddaraf y tu allan i'r teulu yn ôl oedran a rhugler



Dim ond yng Ngwynedd, Ynys Môn, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin oedd mwyafrif sgysiau y siaradwyr Cymraeg yn Gymraeg. Yn Rhondda Cynon Taf, Tor-faen, Sir Fynwy a Blaenau Gwent llai na 10 y cant o sgysiau y tu allan i'r teulu fyddai'r siaradwyr Cymraeg yn eu cynnal yn Gymraeg (Tabl 26).

Ffigur 13: Siaradwyr Cymraeg: iaith y sgwrs ddiweddaraf yn ôl ardal



8. Amrywiaethau daearyddol

Mae Ffigur 14 yn dangos rhai o'r perthnasau sydd i'w gweld yn y canlyniadau ar lefel awdurdod unedol. Mae'r Ffigur yn siartio'r canlynol:

Gallu = y ganran o'r boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg


Rhugl = y ganran o'r boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg yn rhugl

Siarad bob dydd = y ganran o'r siaradwyr Cymraeg sy'n siarad Cymraeg bob dydd

Sgwrs Gymraeg = y ganran o'r siaradwyr Cymraeg a siaradodd Gymraeg yn eu sgwrs ddiweddaraf y tu allan i'r teulu

Gwelir yn syth nad perthynas linol a geir rhwng y rhain i gyd. Er enghraifft, ymddengys fel bod y ganran o siaradwyr Cymraeg a sgwrsiodd yn Gymraeg yn eu sgwrs ddiweddaraf yn cynyddu'n llinol wrth i'r ganran sy'n siarad Cymraeg bob dydd gynyddu—er bod y ganran o sgwrsiau yn is yn gyffredinol na'r ganran sy'n siarad Cymraeg bob dydd. Ar y llaw arall, pan edrychir ar y berthynas rhwng y ganran o siaradwyr Cymraeg sy'n siarad Cymraeg bob dydd a'r ganran yn y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg yn rhugl—neu sy'n gallu siarad Cymraeg— mae'n amlwg nad yw'r berthynas yn un llinol.

Ffigur 14 Rhai perthnasau rhwng y canrannau sy'n gallu siarad Cymraeg, sy'n rhugl etc., ar lefel awdurdod unedol



9. Cyfansoddiad ieithyddol y cartref


Mae'r cartref yn bau gymdeithasol arbennig o bwysig o safbwynt ieithyddol. Mae tri chwarter y siaradwyr Cymraeg sy'n byw mewn cartref lle mae pawb yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl (Tabl 2). Lle nad yw pawb yn y cartref yn siarad Cymraeg dim ond 40% o'r siaradwyr sy'n dweud eu bod yn rhugl. Rhoddodd Cyfrifiad 2001 fanylion am gyfansoddiad cartrefi yn ôl gallu aelodau'r cartref i siarad Cymraeg ond ni roddodd manylion yn ôl oed y bobl yn y cartref. Mae'r Arolygon Defnydd yn gallu rhoi tystiolaeth am hynny.

Yn 2004-06 roedd 49% o'r siaradwyr Cymraeg yn byw mewn cartref lle roedd pawb yn gallu siarad yr iaith, yn ôl yr ymatebion i'r cyfweiliad: 45% oedd y ganran yn ôl Cyfrifiad 2001.

Mae canran y cyplau lle mae'r ddau'n gallu siarad Cymraeg yn gostwng. O gwmpas 8% o'r holl gyplau ifanc (cymedr oed o dan 36) sydd â'r ddau'n gallu siarad Cymraeg. O'r rheini, llai na 60% ohonynt sydd â'r ddau'n rhugl.

Mae canran y cyplau lle mae o leiaf un yn gallu siarad Cymraeg yn cynyddu. Mae 25% o gyplau ifanc ag o leiaf un yn gallu siarad Cymraeg (heb wahaniaethu rhwng lefelau rhuglder).

Ffigur 15 Cyplau: cyfansoddiad yn ôl iaith




10. Defnydd o'r iaith mewn sefyllfaoedd gwahanol gan siaradwyr Cymraeg

10.1 Gartref

Fel y byddid yn disgwyl, roedd gwahaniaeth mawr rhwng maint defnydd y Gymraeg mewn cartrefi lle roedd pawb yn gallu siarad Cymraeg a chartrefi lle dim ond rhai oedd yn gallu siarad yr iaith. Cymraeg oedd yn cael ei siarad bob amser neu'n bennaf gan 61 y cant o'r siaradwyr Cymraeg oedd yn byw mewn cartrefi lle roedd pawb yn gallu siarad Cymraeg (Tabl 6).

Ffigur 16 Siaradwyr Cymraeg: amlder siarad Cymraeg gartref, yn ôl cyfansoddiad ieithyddol y cartref




Ond, unwaith eto, roedd gwahaniaeth mawr rhwng arferion y rhai oedd yn rhugl a'r lleill. Roedd 77 y cant o'r siaradwyr rhugl oedd yn byw mewn cartref lle roedd pawb yn gallu siarad Cymraeg yn siarad Cymraeg gartref bob amser neu'n bennaf (Tabl 7).

Gofynnodd Arolwg Cymdeithasol Cymru 1992 a siaredid Cymraeg *â'r teulu* drwy'r amser neu'r rhan fwyaf o amser, tua hanner yr amser, o dro i dro, neu byth neu bron byth. Gan y gofynnwyd am ddefnydd *â'r teulu* (a allai gynnwys perthnasau heblaw am y rhai oedd yn byw gartref) a bod dewisiadau ymateb gwahanol wedi eu cynnig, mae dehongli cymhariaeth rhwng canlyniadau yr arolwg hwnnw a'r Arolwg Defnydd yn ddyrws.

Yn 1992, nid oedd 12 y cant o'r siaradwyr rhugl byth neu bron byth yn siarad Cymraeg *â'r teulu* ond roedd 64 y cant yn gwneud y cyfan neu'r rhan fwyaf o'r amser.

Yn 2004–06 roedd 13 y cant o'r siaradwyr rhugl yn siarad Saesneg gartref bob amser neu bron bob amser a 57 y cant yn siarad Cymraeg gartref bob amser neu'n bennaf. Roedd y canrannau hyn yn amrywio yn ôl oed. Roedd 18 y cant o blant rhugl 3 i 15 oed, a 22 y cant o bobl rugl 16 i 29 oed bob amser neu bron bob amser yn siarad Saesneg gartref (Tabl 8).

Ffigur 17 Iaith gartref siaradwyr rhugl, yn ôl oed



10.2 *Â pherthnasau*

Fel yn y cartref, mae p'un a yw rhywun yn siarad Cymraeg â gwahanol berthnasau yn dibynnu ar sawl ffactor, yn eu plith: a yw'r person sy'n siarad *â'r* perthynas yn rhugl; cefndir ieithyddol y person sy'n siarad, e.e. oedd ei r(h)ieni'n siarad Cymraeg yn rhugl; ac, os bydd y berthynas yn byw yn yr un cartref, a yw pawb yn y cartref yn gallu siarad Cymraeg?

10.2.1 *Â mab/merch*

Roedd 17 y cant o'r siaradwyr nad oeddent yn rhugl yn siarad Cymraeg â'u plant o leiaf yn weddol gyfartal *â'r* Saesneg. O'r siaradwyr rhugl, roedd 35 y cant yn siarad Saesneg o leiaf yn weddol gyfartal *â'r* Gymraeg (Tabl 9).

10.2.2 *Â'r tad/mam/taid/nain/perthnasau eraill*

Y patrwm cyffredinol ymhlith siaradwyr rhugl oedd bod y ganran a oedd yn siarad Cymraeg 'bron bob amser neu'n bennaf' ar ei huchaf gyda'r tad, mam a'r nain/mam-gu, taid/tad-cu (i'w gymharu â defnydd mewn sefyllfaoedd eraill) ond amrywiai'r

ganran yn sylweddol gan ddibynnu ar oed. Er enghraifft, roedd 38% o'r siaradwyr rhugl 3 i 15 oed yn siarad Cymraeg bob amser neu'n bennaf gyda'r tad tra ymhlith rhai 45 i 64 oed 79% oedd y ganran.

Eto, yn gyffredinol, ymhlith siaradwyr rhugl y patrwm oedd bod y ganran oedd yn siarad Cymraeg bron bob amser neu'n bennaf gyda'r cymar dipyn yn is na'r ganran gyda'r tad etc. (ond yn weddol tebyg i'r ganran fyddai'n defnyddio Cymraeg bob amser neu'n bennaf gyda ffrindiau). Er enghraifft, roedd 49% o'r siaradwyr rhugl 30 i 44 oed yn siarad Cymraeg bob amser neu'n bennaf gyda'r cymar (i'w gymharu â 74% gyda'r tad, a 49% gyda ffrindiau). Ymhlith siaradwyr rhugl 45 i 64 oed, y ganran gyfatebol oedd 58% (i'w gymharu â 79% gyda'r tad a 53% gyda ffrindiau).

Yn gyffredinol unwaith eto, i'r siaradwyr rhugl hŷn, sef rhai dros 30 oed, roedd yn fwy arferol siarad Cymraeg bob amser neu'n bennaf gartref nag oedd gyda'r cymar (er yn llai arferol o hyd nag oedd i siarad â'r tad/mam). Rhaid tybio eu bod yn fwy tueddol o siarad Cymraeg gydag aelodau eraill y cartref na chyda'r cymar i egluro'r gwahaniaeth. Er enghraifft, roedd 61% o'r siaradwyr rhugl 30 i 44 oed yn siarad Cymraeg bob amser neu'n bennaf gartref i'w gymharu â 49% gyda'r cymar (a 74% gyda'r tad). Ymhlith siaradwyr rhugl 45 i 64 oed, y ganran gyfatebol oedd 63% gartref a 58% gyda'r cymar (a 79% gyda'r tad).

10.3 Gyda ffrindiau; gyda'r cymydog agosaf; ac wrth ymgymryd â gweithgareddau pob dydd


Fel yn y cartref, mae a yw rhywun yn siarad Cymraeg â ffrindiau neu gymydog, neu wrth siopa etc. yn dibynnu ar dri pheth: a yw'r bobl eraill yn gallu siarad Cymraeg; gwybod p'un a ydynt yn gallu siarad Cymraeg; ac, ar ben hynny, parodrwydd i siarad Cymraeg. Efallai fod tipyn o wahaniaeth rhwng y gwahanol sefyllfaoedd dan sylw. Mae rhywun yn gallu dewis ei ffrindiau a chan eu bod yn ffrindiau maen nhw'n fwy tebygol o wybod am allu a pharodrwydd ei gilydd i siarad Cymraeg. Nid oes gan rywun gymaint o ddewis gyda'i gymdogion, nac wrth ymgymryd â gweithgareddau pob dydd fel siopa neu fynd ar y bws.

Anaml y byddai rhai nad oeddynt yn rhugl yn siarad Cymraeg. Roedd 17 y cant o'r rhai nad oeddynt yn rhugl yn siarad Cymraeg a Saesneg yn weddol gyfartal gyda ffrindiau, neu'n gwneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg ond roedd y ganran lawer yn is gyda'r cymydog agosaf ac wrth ymgymryd â gweithgareddau pob dydd (Tabl 10).

O'r tair sefyllfa, gyda ffrindiau y byddai siaradwyr rhugl yn gwneud y mwyaf o ddefnydd o'r Gymraeg. Gyda'r cymydog agosaf y gwnânt y defnydd mwyaf wedyn. Gall hynny fod yn adlewyrchu bod y Gymraeg yn gryfach yn yr ardal lle maent yn byw nag ydyw yn yr ardal ehangach o bosibl lle maen nhw'n ymgymryd â'u gweithgareddau pob dydd, ond hefyd yn adlewyrchu y ffaith eu bod yn adnabod y cymydog, ei allu ieithyddol a'i barodrwydd i ddefnyddio Cymraeg tra nad yw hynny'n wir yn eu bywyd pob dydd gydag eraill.

Yn ôl oed, roedd y ganran oedd yn defnyddio'r Gymraeg yn y tair sefyllfa, sef gyda ffrindiau, gyda'r cymydog agosaf ac wrth weithgareddau dyddiol, bob amser neu bron bob amser ar ei huchaf ymhlith pobl dros 65 oed ac ar ei hisaf ymhlith pobl o dan 30 oed (Ffigur 18).

Ffigur 18 Siaradwyr Cymraeg rhugl: iaith siarad gyda ffrindiau, gyda'r cymydog agosaf, ac iaith gweithgareddau pob dydd, yn ôl oed



Gofynnodd Arolwg Cymdeithasol Cymru 1992 a siaredid Cymraeg â *chyfeillion yn gymdeithasol* drwy'r amser neu'r rhan fwyaf o amser, tua hanner yr amser, o dro i dro, neu byth neu bron byth. Yn 1992, roedd 10 y cant o'r siaradwyr rhugl nad oeddent byth neu bron byth yn siarad Cymraeg â chyfeillion yn gymdeithasol ond roedd 56 y cant yn gwneud y cyfan neu'r rhan fwyaf o'r amser

Yn 2004–06 roedd 8 y cant o'r siaradwyr rhugl yn siarad Saesneg gyda ffrindiau bob amser neu bron bob amser a 49 y cant yn siarad Cymraeg gyda ffrindiau bob amser neu bron bob amser neu'n bennaf.

10.4 Yn yr ysgol

Roedd 82% o'r siaradwyr rhugl dan 16 oed yn siarad Cymraeg bob amser neu'n bennaf yn yr ysgol. Mae'r ganran hon lawer yn uwch na'r ganran o siaradwyr rhugl dan 16 oed oedd yn siarad Cymraeg bob amser neu'n bennaf â'r fam neu'r tad (42% neu 38% yn ôl eu trefn), gartref (41%) neu gyda ffrindiau (41%). Er na wyddys i sicrwydd, gellid meddwl mai'r defnydd o'r iaith yn y dosbarth yn hytrach nag amser chwarae ar fuarth yr ysgol sy'n gyfrifol am y gwahaniaethau mawr. Mae iaith addysg yn cael ei disgrifio o dan y bennawd nesaf.

17% o'r siaradwyr dan 16 oed oedd heb fod yn rhugl oedd yn siarad Cymraeg bob amser neu'n bennaf yn yr ysgol (Tabl 11).

11. Iaith addysg

11.1 Cyn-ysgol

Heblaw am blant 3 i 4 oed, roedd y cwestiwn am iaith addysg cyn-ysgol yn gofyn i bobl gofio yn ôl i adeg cynharach yn eu bywyd. Mae problemau gyda chwestiynau o'r fath. Y prif broblem yw na fydd yr ymatebwyr yn gallu cofio'n iawn. Yn achos y cwestiwn penodol hwn, mae'n bosibl na fydd y cwestiwn yn gwneud synnwyr i bobl hŷn ac hyd yn oed os ydynt yn deall ystyr addysg gyn-ysgol, na fydd y cwestiwn yn berthnasol iddynt, gan nad oedd addysg gyn-ysgol yn gyffredin yn y gorffennol.


Sampl bach oedd sampl y plant 3 i 4 oed. O'r rhai y dywedodd eu rheini eu bod yn rhugl, roedd 79% ohonynt wedi cael addysg gyn-ysgol yn Gymraeg yn bennaf neu'n unig. 56% oedd y ganran gyfatebol o blith y rhai nad oeddynt yn rhugl.

Roedd llawer mwy o blant 5 i 10 oed (oed ysgol gynradd) a 11 i 15 oed (oed ysgol uwchradd) yn y sampl. O'r siaradwyr rhugl o'r oeddrannau hynny, canrannau eithaf tebyg oedd wedi cael addysg gyn-ysgol yn Gymraeg yn bennaf neu'n unig, 82% a 79% yn ôl eu trefn, ond o'r rhai nad oeddynt yn rhugl roedd y canrannau dipyn yn is, 27% a 12% yn ôl eu trefn (Tabl 12).

11.2 Addysg gynradd

O'r plant 5 i 10 oed oedd yn rhugl roedd 95% yn derbyn eu haddysg gynradd trwy'r Gymraeg yn unig neu'n bennaf. Roedd y ganran yn gostwng wrth i oedran yr ymatebwyr godi (Tabl 13).


Ffigur 19 Siaradwyr Cymraeg rhugl: iaith eu haddysg gynradd, yn ôl oed



11.3 Addysg uwchradd


Roedd canrannau uwch o'r siaradwyr rhugl yn dweud bod Cymraeg a Saesneg yn cael eu defnyddio'n weddol gyfartal i'w gymharu â'r sector cynradd. O'r plant 11 i 15 oed oedd yn rhugl roedd 76% yn derbyn eu haddysg uwchradd trwy'r Gymraeg yn unig neu'n bennaf. Yr un oedd y ganran ymhlith y siaradwyr rhugl 16 i 29 oed ond roedd yn is, ac yn gostwng, wrth i oedran yr ymatebwyr godi (Tabl 14).

Ffigur 20 Siaradwyr Cymraeg rhugl: iaith eu haddysg uwchradd, yn ôl oed



11.3.1 Iaith astudio pynciau

Ffigur 21 Siaradwyr rhugl yn y Gymraeg 11-15 oed: iaith addysg, yn ôl pwnc




Roedd 95% o'r siaradwyr rhugl yn astudio Cymraeg trwy'r Gymraeg bron bob amser neu'n bennaf. Dim ond 68% a 65% yn ôl eu trefn oedd yn astudio Mathemateg a

Arolygon Defnydd Iaith 2004-06

Gwyddoniaeth trwy'r Gymraeg bron bob amser neu'n bennaf trwy'r Gymraeg. Ychydig iawn o'r rhai nad oeddynt yn rhugl oedd yn astudio unrhyw bwnc trwy'r Gymraeg heblaw am bwnc y Gymraeg ei hun. Roedd 56% o'r rhai nad oeddynt yn rhugl yn astudio hwnnw trwy'r Gymraeg bron bob amser neu'n bennaf.

Ar gyfartaledd, o'r 10 pwnc a restrwyd yn yr holiadur roedd 8.3 yn cael eu hastudio. Roedd siaradwyr rhugl yn astudio 6.9 pwnc o leiaf yn gyfartal yn Gymraeg a Saesneg. Dim ond 1.2 pwnc oedd siaradwr nad oedd yn rhugl yn astudio o leiaf yn gyfartal yn Gymraeg a Saesneg.


Ffigur 22 Siaradwyr 11–15 oed nad ydynt yn rhugl yn y Gymraeg: iaith addysg, yn ôl pwnc




11.4 Addysg bellach ac uwch

Er bod y canrannau o siaradwyr rhugl a ddywedodd fod iaith eu haddysg bellach yn Gymraeg yn unig neu'n bennaf lawer yn is na'r canrannau a gafwyd am addysg uwchradd mae lle i gredu nad yw'r ymatebwyr wedi canolbwyntio ar gyfrwng yr addysgu wrth ymateb gan fod y canrannau hyn yn uwch o lawer na'r ddarpariaeth Gymraeg neu ddwyieithog sydd ar gael ar hyn o bryd neu sydd wedi bod erioed yn y gorffennol. Mae'r un peth yn wir am y canlyniadau a gafwyd am addysg uwch.

Ffigur 23 Siaradwyr Cymraeg rhugl: iaith eu haddysg bellach, yn ôl oed



Ffigur 24 Siaradwyr Cymraeg rhugl: iaith eu haddysg uwch, yn ôl oed




12. Siaradwyr Cymraeg mewn gwaith

12.1 Iaith a ddefnyddir â goruchwylwyr/rheolwyr llinell; â chydweithwyr; â phobl sy'n cael eu goruchwyllo/rheoli yn uniongyrchol; â chleientiaid


Y prif ddylanwadau y tu ôl i'r dewis iaith yw a ydyw'r siaradwr yn rhugl ac a ydyw rhan fwyaf y goruchwylwyr a.y.b. yn gallu siarad Cymraeg. Nid oes llawer o wahaniaeth rhwng yr oedrannau yn hyn o beth, fel y gwelir yn Ffigur 25 a Ffigur 26 isod. Lle mae'r rhan fwyaf o'r categori'n gallu siarad Cymraeg, bydd rhwng 73% a 84% o'r gweithwyr sy'n gallu siarad Cymraeg yn siarad Cymraeg â'r bobl dan sylw. Lle dim ond rhai o'r categori'n gallu siarad Cymraeg mae amrediad y canrannau'n syrthio i 10% 25%.

Gweler Tabl 15.

Ffigur 25 Yn siarad Cymraeg yn bennaf, lle mae rhan fwyaf y bobl dan sylw yn gallu siarad Cymraeg, yn ôl oedran



Ffigur 26 Yn siarad Cymraeg yn bennaf, lle mae rhai'n unig o'r bobl dan sylw yn gallu siarad Cymraeg, yn ôl oedran



12.2 Iaith a ddefnyddir i wneud gwaith gweinyddol

Eto, roedd gwahaniaeth sylweddol rhwng siaradwyr rhugl a'r rhai nad oedd yn rhugl. Dywedodd 30 y cant o'r siaradwyr rhugl mai'r Gymraeg oedd yn cael ei defnyddio yn bennaf. Dim ond 3 y cant o'r rhai nad oedd yn rhugl ddywedodd yr un peth (Tabl 16).

O ran sector y cyflogwr, doedd fawr o wahaniaeth rhwng y canrannau oedd yn defnyddio'r Gymraeg yn bennaf yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus, ond mae canran uwch yn y sector cyhoeddus yn defnyddio Cymraeg a Saesneg yn eithaf cyfartal: 20 y cant o'i gymharu â 12 y cant.

12.3 Ysgrifennu Cymraeg yn y gwaith

Roedd 25 y cant o'r siaradwyr rhugl yn ysgrifennu rhywbeth yn Gymraeg yn rheolaidd a 29 y cant yn ysgrifennu yn Gymraeg weithiau (Tabl 17). Mae cysylltiad cryf cadarnhaol, fel y gellid ei ddisgwyl, rhwng amlder siarad Cymraeg ac amlder ei hysgrifennu.

12.4 Hyfforddiant gwella eu Cymraeg

Roedd 20 y cant wedi cael cynnig hyfforddiant i wella naill ai eu Cymraeg llafar neu ysgrifenedig, neu eu sgiliau arbennig yn y Gymraeg, e.e. ateb y ffôn, cyfieithu. Amcangyfrifir bod 38,000 o bobl wedi cael cynnig o'r fath (Tabl 18).

Roedd 16 y cant (18,000) o'r siaradwyr rhugl a 27 y cant (20,000) o'r rhai nad oeddent yn rhugl wedi cael cynnig.

Roedd 31,000 wedi cael cynnig gwella eu Cymraeg llafar, 23,000 i wella eu Cymraeg ysgrifenedig, ac 17,000 i wella sgiliau arbennig yn y Gymraeg.

Roedd y ganran oedd wedi cael cynnig hyfforddiant lawer yn uwch ymhlith pobl oedd yn gweithio yn y sector cyhoeddus o'i chymharu â gweithwyr y sector preifat: 35 y cant (30,000) yn erbyn 7 y cant (6,000).

12.5 Hyfforddiant cysylltiedig-â-gwaith yn y Gymraeg

Roedd cyflogwyr 20 y cant o'r siaradwyr wedi cynnig neu wedi trefnu hyfforddiant cysylltiedig-â-gwaith yn y Gymraeg. Roedd 61 y cant o'r rhain hefyd wedi cael y cynigion y soniwyd amdanynt yn yr adran flaenorol. Roedd canran uchel o siaradwyr y sector cyhoeddus wedi cynnig neu drefnu hyfforddiant o'i chymharu â siaradwyr y sector preifat: 35 y cant yn erbyn 6 y cant (Tabl 19).

12.6 Bathodynau yn dangos eu bod yn gallu siarad Cymraeg

12.6.1 Cynnig

Roedd 16 y cant wedi cael cynnig bathodyn i ddangos eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Roedd 21 y cant o'r benywod wedi cael cynnig a 11 y cant o'r gwrywod. Roedd y ganran oedd wedi cael cynnig yn cynyddu gydag oed. 11 y cant o'r bobl 16 i 29 oed wedi cael cynnig, 17 y cant o'r bobl 30 i 44 oed ac 19 y cant o'r bobl 45 i 64 oed. Roedd 20 y cant o'r siaradwyr rhugl wedi cael cynnig o'i gymharu â 11 y cant o'r rhai nad oeddynt yn rhugl. Roedd dros ddwywaith cymaint o weithwyr y sector cyhoeddus wedi cael cynnig ag oedd yn y sector preifat: 23 y cant o'i gymharu â 10 y cant. Roedd canran uwch o'r rhai oedd yn gweithio i gyflogwyr mawr wedi cael

cynnig o'i chymharu â cyflogwyr mawr, e.e. 23 y cant o'r rhai oedd yn gweithio lle roedd 250 neu'n fwy yn y gweithle o'i gymharu â 13 y cant lle roedd rhwng 1 a 10 yn gweithio (Tabl 20).


12.6.2 Parodrwydd gwisgo bathodyn

Roedd 63 y cant o'r siaradwyr yn fodlon gwisgo bathodyn: 68 y cant o'r menywod a 57 y cant o'r dynion. Roedd 73 y cant o'r siaradwyr rhugl yn fodlon gwisgo bathodyn. Yn ôl sector cyflogaeth, byddai 57 y cant gweithwyr y sector preifat yn fodlon a 68 y cant gweithwyr y sector cyhoeddus (Tabl 20).

12.7 Agwedd cyflogwyr at ddefnyddio'r Gymraeg

Un cwestiwn am agwedd a ofynnwyd, ond nid cwestiwn am agwedd yr ymatebydd ydoedd, ond barn yr ymatebydd am agwedd ei gyflogwr. Gofynnwyd i'r ymatebydd ddewis un datganiad i ddisgrifio agwedd y cyflogwr. Credai 65 y cant o'r siaradwyr oedd yn gweithio i gyflogwr yn y sector cyhoeddus bod eu cyflogwr yn gefnogol i'r defnydd o'r Gymraeg yn y rhan fwyaf o agweddau'r busnes, yn ffurfiol ac yn anffurfiol; 37 y cant o'r siaradwyr a weithiai i gyflogwr sector preifat a gredai'r un peth am eu cyflogwr (Tabl 21). (Roedd 90 mil o'r siaradwyr Cymraeg yn gweithio yn y sector preifat a 91 mil yn gweithio yn y sector cyhoeddus).

Ffigur 27 Agwedd y cyflogwr at y Gymraeg, yn ôl sector y cyflogwr




13. Ysgrifennu Cymraeg siaradwyr Cymraeg 3 oed a throsodd

Amcangyfrif yr Arolwg am y nifer o siaradwyr sy'n gallu ysgrifennu Cymraeg yw 542 mil³. Dywedodd 34 y cant eu bod yn gallu ysgrifennu Cymraeg yn dda iawn, 32 y cant yn dda, 26 y cant ddim yn dda, a 7 y cant ddim o gwbl (Tabl 22).


Mae'r canrannau uchaf am ysgrifennu yn dda neu'n dda iawn i'w cael ymhlith pobl dan 30 oed.

Ffigur 28 Siaradwyr Cymraeg: disgrifiad o'u gallu ysgrifennu Cymraeg, yn ôl oedran



Dywedodd 56 y cant o'r siaradwyr rhugl eu bod yn gallu ysgrifennu Cymraeg yn dda iawn a 32 y cant arall eu bod yn gallu ysgrifennu yn dda. Dim ond 4 y cant o'r rhai nad oeddynt yn rhugl ddywedodd eu bod yn gallu ysgrifennu yn dda iawn ond dywedodd 34 y cant eu bod yn gallu ysgrifennu yn dda.


Ffigur 29 Siaradwyr Cymraeg: disgrifiad o'u gallu ysgrifennu Cymraeg, yn ôl rhuglder siarad



³ 496 mil oedd yn gallu ysgrifennu Cymraeg yn ôl Cyfrifiad 2001

Dim ond yng Ngwynedd y barnodd mwyafrif y siaradwyr Cymraeg eu bod yn gallu ysgrifennu Cymraeg yn dda iawn (Tabl 27).


Ffigur 30 Gallu ysgrifennu Cymraeg siaradwyr Cymraeg



14. Man dysgu Cymraeg siaradwyr Cymraeg 3 oed a throsodd


Roedd ychydig dros hanner—53 y cant—o'r siaradwyr wedi dysgu Cymraeg gartref. Amrywiai'r ganran o 85 y cant ymhlith pobl 65 oed neu'n hŷn i 26 y cant ymhlith plant 3 i 15 oed (Tabl 23).

Ffigur 31 Siaradwyr Cymraeg: canran ddysgodd Gymraeg gartref, yn ôl oedran



Yn ardal 8 awdurdod unedol yn unig oedd mwyafrif o'r siaradwyr Cymraeg wedi dysgu siarad Cymraeg gartref (Ffigur 32).

Ffigur 32 Siaradwyr Cymraeg: man dysgu Cymraeg yn ôl awdurdod lleol



Roedd 75 y cant o'r siaradwyr rhugl wedi dysgu Cymraeg gartref, o'i gymharu â 23 y cant o'r rhai nad oeddynt yn rhugl. (O'r siaradwyr rhugl 16 oed neu'n hŷn roedd 82.7 y cant wedi dysgu Cymraeg gartref. Yn 1992 roedd 91 y cant o'r siaradwyr rhugl 16 oed neu'n hŷn wedi dysgu siarad Cymraeg fel plentyn bach gartref).

O'r siaradwyr oedd â'u dau riant yn rhugl, roedd 96 y cant wedi dysgu siarad Cymraeg gartref; pan oedd y fam yn unig yn rhugl, roedd 65 y cant wedi dysgu siarad Cymraeg gartref; pan oedd y tad yn unig yn rhugl, roedd 41 y cant wedi dysgu siarad Cymraeg gartref.

15. Rhai cymariaethau rhyngwladol

15.1 Iwerddon

Yn ôl Cyfrifiad 2006 Gweriniaeth Iwerddon roedd 40.8 y cant (1.7 miliwn) o'r boblogaeth yn gallu siarad Gwyddeleg. Yn ôl oedran, roedd y ganran yn amrywio o 13.7 y cant ymhlith plant 3 i 4 oed, i 72.5 y cant ymhlith plant 10 i 14 oed.

Roedd 29.3 y cant (538 mil) o'r siaradwyr yn siarad Gwyddeleg bob dydd (ond dim ond 5.1 y cant—85 mil—y tu allan i'r gyfundrefn addysg) a 5.9 y cant (97 mil) arall yn ei siarad bob wythnos. Fyddai 24.9 y cant (413 mil) byth yn ei siarad. (Central Statistics Office Ireland, 2007). Mewn cymhariaeth, roedd 63 y cant o siaradwyr Cymraeg Cymru yn siarad Cymraeg bob dydd (Tabl 4).

15.2 New Brunswick, Canada

New Brunswick yw'r unig dalaith yng Nghanada sy'n ddwyieithog yn swyddogol. Yn ôl Cyfrifiad 2006 Canada, roedd 43.6 y cant (314 mil) o boblogaeth talaith New Brunswick â gwybodaeth o'r Ffrangeg. Ystyr hynny yw y dywedir eu bod yn gallu cynnal sgwrs yn yr iaith. Roedd 32.7 y cant (235 mil) yn perthyn yn swyddogol i'r lleiafrif ieithyddol, sef siaradwyr Ffrangeg (Statistics Canada, 2007:1). Roedd 32.4 y cant (233 mil) o boblogaeth y dalaith yn siarad Ffrangeg fel mamiaith (Statistics Canada, 2007:2). Gellir amcangyfrif ar sail y ffigurau hynny fod o leiaf 75 y cant o'r rhai a honnodd wybodaeth o'r Ffrangeg yn debyg o fod yn medru ei siarad yn rhugl. 58 y cant o siaradwyr Cymraeg Cymru sy'n rhugl (Tabl 2).

Roedd 29.4 y cant (212 mil) o'r boblogaeth yn siarad Ffrangeg gartref amlaf (Statistics Canada, 2007:2). Roedd y rhain yn cynrychioli 68 y cant o'r rhai oedd â gwybodaeth o'r Ffrangeg. Os cymerir bod hynny'n golygu eu bod yn siarad Ffrangeg bob dydd, gellir hefyd ddweud fod o leiaf 68 y cant a feddai wybodaeth o'r iaith yn ei siarad bob dydd; 'o leiaf' gan y gallent fod yn siarad yr iaith mewn sefyllfaoedd eraill hefyd.

Mewn cymhariaeth, 34 y cant o siaradwyr Cymraeg Cymru a ddywedodd eu bod yn siarad Cymraeg gartref yn bennaf neu bob amser/bron bob amser (Tabl 6). 63 y cant oedd yn siarad Cymraeg bob dydd.

15.3 Cymuned ymreolus Gwlad y Basg

	Ddim yn rhugl	3.9	33.4	47.4	84.8	190,536	2,475	15.2	100.0	224,786	2,998
Gallu siarad Cymraeg rhugl y rhieni	Y ddau riant yn rhugl	52.6	29.2	14.7	96.5	214,494	3,365	3.5	100.0	222,357	3,478
	Y tad yn unig yn rhugl	29.4	33.6	27.2	90.2	39,011	555	9.8	100.0	43,261	622
	Y fam yn unig yn rhugl	33.6	35.4	22.3	91.3	42,146	588	8.7	100.0	46,170	649
	Cymysgedd arall neu anhysbys	18.2	34.9	36.5	89.6	203,510	2,538	10.4	100.0	227,211	2,900
Cyfansoddiad ieithyddol y cartref (pobl 3 oed neu drosodd)	Pawb yn gallu siarad Cymraeg	45.4	29.0	19.0	93.4	265,312	4,180	6.6	100.0	283,961	4,491
	Rhai'n gallu siarad Cymraeg	22.5	36.3	32.9	91.7	236,540	2,889	8.3	100.0	257,963	3,183

Tabl 23 Siaradwyr Cymraeg: man dysgu siarad Cymraeg

		Man dysgu siarad Cymraeg				
		Gartref	Yn yr ysgol	Rhywle arall	Amcangyfrif	Sail
		% Rhes	% Rhes	% Rhes		
Gallu - siarad Cymraeg	Yn gallu siarad Cymraeg	53.2	40.4	6.3	542,792	7,688
Rhyw	Gwryw	56.4	38.2	5.3	244,693	3,409
	Benyw	50.6	42.3	7.1	298,099	4,279
Oedran	3 - 15	26.2	72.6	1.2	152,276	1,745
	16 - 29	38.9	59.0	2.1	84,330	1,086
	30 - 44	58.0	31.1	10.9	90,097	1,394
	45 - 64	68.5	18.6	12.9	121,616	1,952
	65+	85.4	9.1	5.5	94,474	1,511
Yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg	Yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg	55.3	39.4	5.2	427,992	6,073
	Ddim yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu	45.5	44.1	10.4	114,800	1,615
Dangosydd rhuglder	Yn rhugl	75.0	23.3	1.7	316,110	4,664
	Ddim yn rhugl	22.7	64.5	12.8	226,168	3,020
Gallu siarad Cymraeg rhugl y rhieni	Y ddau riant yn rhugl	95.9	3.6	0.5	222,688	3,484
	Y tad yn unig yn rhugl	41.3	54.1	4.6	43,420	622
	Y fam yn unig yn rhugl	64.9	30.6	4.5	46,496	653
	Cymysgedd arall neu anhysbys	11.5	75.7	12.8	227,272	2,904
Cyfansoddiad ieithyddol y cartref (pobl 3 oed neu drosodd)	Pawb yn gallu siarad Cymraeg	75.9	18.3	5.8	284,490	4,500
	Rhai'n gallu siarad Cymraeg	28.3	64.8	6.9	258,302	3,188

17. Tablau Awdurdodau Lleol

Tabl 24 Gallu yn y Gymraeg, yn ôl awdurdod lleol

	Disgrifiad gallu yn y Gymraeg					Cyfanswm	Amcangyfrif	Sail
	Rwyf yn rhugl yn Gymraeg	Gallaf siarad cryn dipyn o Gymraeg	Dim ond ychydig o Gymraeg y gallaf ei siarad	Dim ond ychydig o eiriau y gallaf eu dweud				
	% Rhes	% Rhes	% Rhes	% Rhes	% Rhes			
Ynys Môn	78.7	14.3	5.8	1.2	100.0	36,373	975	
Gwynedd	83.3	11.8	4.3	0.6	100.0	83,011	1,230	
Conwy	58.4	22.8	14.9	3.9	100.0	33,181	483	
Sir Ddinbych	54.9	22.2	19.4	3.5	100.0	25,761	418	
Sir y Fflint	25.3	29.8	34.0	10.9	100.0	19,458	216	
Wrecsam	37.8	34.8	21.8	5.6	100.0	17,444	223	
Powys	40.6	23.6	30.5	5.3	100.0	25,474	320	
Ceredigion	70.6	20.2	7.4	1.8	100.0	37,643	901	
Sir Benfro	48.6	22.7	21.9	6.8	100.0	22,673	349	
Sir Gaerfyrddin	71.6	20.6	6.4	1.3	100.0	74,818	781	
Abertawe	50.5	31.8	14.6	3.2	100.0	23,427	204	
Castell-nedd Port Talbot	59.8	28.6	7.6	4.0	100.0	19,797	235	
Pen-y-bont ar Ogwr	48.6	19.6	26.7	5.1	100.0	11,254	136	
Bro Morgannwg	50.4	26.4	15.7	7.5	100.0	10,001	137	
Rhondda Cynon Taf	47.2	22.4	28.6	1.7	100.0	23,756	172	
Merthyr Tudful	52.0	29.0	17.1	1.8	100.0	3,935	105	
Caerffili	50.3	21.9	22.2	5.6	100.0	11,635	103	
Blaenau Gwent	14.1	29.9	43.1	12.9	100.0	6,047	120	
Tor-faen	21.8	20.7	49.1	8.5	100.0	7,304	116	
Sir Fynwy	12.8	20.9	46.1	20.2	100.0	8,339	137	
Casnewydd	13.7	20.4	54.1	11.7	100.0	9,477	96	
Caerdydd	46.0	21.9	26.2	5.9	100.0	32,090	231	
Cymru	58.4	21.2	16.5	3.8	100.0	542,897	7,688	

Tabl 25 Amllder siarad Cymraeg yn ôl awdurdod lleol

Amllder siarad Cymraeg

	Bob dydd	Bob wythnos	Llai aml	Byth	Cyfanswm		
	% Rhes	% Rhes	% Rhes	% Rhes	% Rhes	Amcangyfrif	Sail
Ynys Môn	86.6	5.4	6.7	1.3	100.0	36,371	975
Gwynedd	90.3	4.9	4.1	0.7	100.0	83,368	1,235
Conwy	66.1	14.2	16.8	2.9	100.0	33,250	484
Sir Ddinbych	57.3	21.0	20.4	1.3	100.0	25,761	418
Sir y Fflint	35.3	28.6	27.0	9.1	100.0	19,458	216
Wrecsam	38.9	20.0	31.4	9.7	100.0	17,554	224
Powys	43.4	33.3	19.7	3.5	100.0	25,369	319
Ceredigion	80.8	11.1	7.0	1.1	100.0	37,795	905
Sir Benfro	52.1	28.1	17.3	2.5	100.0	22,836	351
Sir Gaerfyrddin	79.6	10.5	9.2	0.7	100.0	75,498	786
Abertawe	49.2	19.9	27.4	3.4	100.0	23,427	204
Castell-nedd Port Talbot	61.8	17.0	18.4	2.7	100.0	19,886	236
Pen-y-bont ar Ogwr	37.4	15.8	41.9	5.0	100.0	11,254	136
Bro Morgannwg	50.3	22.8	22.2	4.8	100.0	10,001	137
Rhondda Cynon Taf	35.3	22.6	34.0	8.1	100.0	23,756	172
Merthyr Tudful	50.6	15.3	25.5	8.5	100.0	3,893	104
Caerffili	45.7	21.1	26.8	6.5	100.0	11,635	103
Blaenau Gwent	29.4	34.0	32.4	4.3	100.0	6,047	120
Tor-faen	34.1	35.2	26.9	3.8	100.0	7,304	116
Sir Fynwy	24.8	32.7	32.4	10.1	100.0	8,339	137
Casnewydd	21.9	37.8	23.5	16.8	100.0	9,705	98
Caerdydd	44.4	28.9	19.8	6.8	100.0	32,184	231
Cymru	62.8	17.1	16.6	3.5	100.0	544,690	7,707

Tabl 26 Siaradwyr Cymraeg 16 oed neu'n hŷn: iaith y sgwrs ddiweddaraf, yn ôl awdurdod lleol

	Iaith y sgwrs ddiweddaraf				Cyfanswm			
	Cymraeg	Saesneg	Arall	Ddim yn gwybod/ ddim yn cofio	% Rhes	Amcangyfrif	Sail	
	% Rhes	% Rhes	% Rhes	% Rhes	% Rhes			
Ynys Môn	58.6	41.1	0.1	0.3	100.0	29,419	841	
Gwynedd	70.8	27.7	0.5	1.0	100.0	63,507	1,000	
Conwy	39.3	60.1	0.6	0.0	100.0	26,211	400	
Sir Ddinbych	33.3	66.0	0.6	0.1	100.0	19,970	340	
Sir y Fflint	14.5	85.5	0.0	0.0	100.0	12,460	152	
Wrecsam	18.3	81.7	0.0	0.0	100.0	13,424	182	
Powys	28.2	69.9	0.8	1.1	100.0	16,673	234	
Ceredigion	58.0	41.4	0.1	0.5	100.0	27,818	691	
Sir Benfro	32.1	65.8	0.4	1.7	100.0	16,005	259	
Sir Gaerfyrddin	52.2	47.7	0.1	0.0	100.0	59,318	640	
Abertawe	19.4	80.3	0.3	0.0	100.0	19,361	178	
Castell-nedd Port Talbot	30.8	68.6	0.0	0.6	100.0	14,801	194	
Pen-y-bont ar Ogwr	10.7	85.3	4.1	0.0	100.0	7,610	100	
Bro Morgannwg	16.9	83.1	0.0	0.0	100.0	6,635	94	
Rhondda Cynon Taf	6.3	91.6	1.1	1.0	100.0	15,899	125	
Merthyr Tudful	12.3	87.7	0.0	0.0	100.0	2,393	71	
Caerffili	12.8	84.9	0.0	2.4	100.0	5,242	54	
Blaenau Gwent	0.0	97.4	2.6	0.0	100.0	2,631	61	
Tor-faen	6.0	89.5	4.5	0.0	100.0	3,330	58	
Sir Fynwy	4.2	93.8	0.0	2.0	100.0	3,464	63	
Casnewydd	3.5	93.6	0.0	2.9	100.0	4,189	47	
Caerdydd	29.1	69.7	1.1	0.0	100.0	19,773	151	
Cymru	40.7	58.3	0.5	0.5	100.0	390,130	5,935	

Tabl 27 Siaradwyr Cymraeg; gallu ysgrifennu Cymraeg, yn ôl awdurdod lleol

Disgrifiad gallu ysgrifennu Cymraeg								
	Yn dda iawn % Rhes	Yn dda % Rhes	Ddim yn dda % Rhes	Yn gallu ysgrifennu % Rhes	Dim o gwbl % Rhes	Cyfanswm % Rhes	Amcangyfrif	Sail
Ynys Môn	44.3	33.4	15.5	93.2	6.8	100.0	36,286	973
Gwynedd	55.7	27.0	13.6	96.3	3.7	100.0	82,774	1,229
Conwy	36.0	31.8	23.2	91.0	9.0	100.0	33,250	484
Sir Ddinbych	30.3	34.3	24.7	89.3	10.7	100.0	25,595	416
Sir y Fflint	22.2	27.0	40.0	89.2	10.8	100.0	19,458	216
Wrecsam	29.2	29.2	32.7	91.2	8.8	100.0	17,554	224
Powys	22.3	34.5	34.1	90.8	9.2	100.0	25,474	320
Ceredigion	38.7	33.7	22.8	95.2	4.8	100.0	37,374	896
Sir Benfro	23.9	34.9	32.4	91.1	8.9	100.0	22,627	348
Sir Gaerfyrddin	32.8	36.4	23.5	92.7	7.3	100.0	74,919	780
Abertawe	30.1	35.9	28.2	94.2	5.8	100.0	23,427	204
Castell-nedd Port Talbot	28.6	40.4	19.5	88.5	11.5	100.0	19,619	235
Pen-y-bont ar Ogwr	30.5	37.6	25.7	93.8	6.2	100.0	11,254	136
Bro Morgannwg	31.6	38.8	26.0	96.4	3.6	100.0	9,949	136
Rhondda Cynon Taf	30.3	32.4	30.7	93.4	6.6	100.0	23,460	170
Merthyr Tudful	42.4	27.8	25.2	95.4	4.6	100.0	3,893	104
Caerffili	35.3	33.2	25.8	94.3	5.7	100.0	11,635	103
Blaenau Gwent	12.0	34.8	42.1	88.9	11.1	100.0	5,992	119
Tor-faen	19.0	28.0	44.2	91.2	8.8	100.0	7,304	116
Sir Fynwy	10.1	31.9	42.6	84.6	15.4	100.0	8,339	137
Casnewydd	5.7	31.7	49.1	86.5	13.5	100.0	9,705	98
Caerdydd	30.4	26.3	35.3	92.0	8.0	100.0	32,035	230
Cymru	34.5	32.5	25.7	92.6	7.4	100.0	541,924	7,674

Tabl 28 Siaradwyr Cymraeg: lle dysgu'r Gymraeg yn ôl nodweddion y siaradwyr yn ôl awdurdod

	Man dysgu siarad Cymraeg				Amcangyfrif	Sail
	Gartref % Rhes	Yn yr ysgol % Rhes	Rhywle arall % Rhes	Cyfanswm % Rhes		
Ynys Môn	76.4	17.6	5.9	100.0	36,328	974
Gwynedd	76.7	18.7	4.6	100.0	83,062	1,231
Conwy	55.1	38.1	6.8	100.0	33,007	481
Sir Ddinbych	55.0	36.1	8.9	100.0	25,761	418
Sir y Fflint	23.6	69.1	7.2	100.0	19,458	216
Wrecsam	43.6	49.2	7.3	100.0	17,324	222
Powys	43.3	49.6	7.1	100.0	25,306	318
Ceredigion	66.3	27.6	6.2	100.0	37,622	902
Sir Benfro	47.5	45.1	7.5	100.0	22,895	352
Sir Gaerfyrddin	71.1	25.6	3.4	100.0	75,271	784
Abertawe	56.8	38.5	4.7	100.0	23,427	204
Castell-nedd Port Talbot	57.5	40.4	2.1	100.0	19,712	234
Pen-y-bont ar Ogwr	25.5	68.2	6.3	100.0	11,254	136
Bro Morgannwg	32.3	57.0	10.6	100.0	10,001	137
Rhondda Cynon Taf	23.0	68.5	8.5	100.0	23,756	172
Merthyr Tudful	19.4	71.3	9.3	100.0	3,935	105
Caerffili	17.4	78.0	4.6	100.0	11,507	102
Blaenau Gwent	7.7	74.9	17.4	100.0	6,047	120
Tor-faen	8.6	78.7	12.7	100.0	7,304	116
Sir Fynwy	14.5	71.5	14.0	100.0	8,339	137
Casnewydd	11.2	82.4	6.4	100.0	9,578	97
Caerdydd	32.6	58.4	9.0	100.0	31,899	230
Cymru	53.2	40.4	6.3	100.0	542,792	7,688

18. Manylion technegol

18.1 Cefndir

Comisiynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru arolygon “Byw yng Nghymru” 2004–06 fel parhad o gyfres o arolygon cyflwr tai, yr oedd y diweddaraf ohonynt wedi eu cynnal yn 1992-93 a 1997-98. Yn 2004, fel yn y blynyddoedd cynt (ond dim yn 2005–6), roedd dwy elfen: y gyntaf yn arolwg cyfweiliad mewn cartrefi a’r ail yn arolwg o gyflwr y tai eu hunain. Yn 1992 ychwanegwyd at yr arolwg cyfweiliad trwy ddefnyddio holiaduron oedd yn holi am allu y preswylwyr yn y Gymraeg, eu defnydd ohoni a’u cefndir ieithyddol. Gellir ystyried yr arolwg hwnnw—Arolwg Cymdeithasol Cymru 1992— yn rhagflaenydd Arolygon Defnydd Iaith 2004–06.

Cwmni Ipsos MORI oedd yn gyfrifol am y gwaith maes. Uned Ddata Llywodraeth Leol – Cymru, menter bartneriaeth sy’n cael ei hariannu ar y cyd rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth Leol yng Nghymru, a reolodd “Byw yng Nghymru”. Hywel Jones, ystadegydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg, a wnaeth yr holl waith ddadansoddi ac a luniodd yr adroddiad hwn.

18.2 Methodoleg

Ar gyfer arolwg cyfweiliad “Byw yng Nghymru” defnyddiwyd techneg “cyfweld personol wedi’i gynorthwyo gan gyfrifiadur” (CAPI yw’r talfyriad Saesneg) i holi’r sawl a ddewiswyd i gynrychioli’r cartref, ran amlaf y sawl oedd yn berchen ar y tŷ, neu’n ei rentu, neu os oedd perchnogaeth neu gyfrifoldeb ar y cyd, y sawl oedd yn derbyn y cyflog uchaf. Yn 2004 a 2005 fel rhan o’r cyfweiliad, gofynnwyd cyfres o gwestiynau yn ymwneud â’r Gymraeg. Ymhlith y rhain roedd cwestiwn am allu siarad Cymraeg pawb 3 oed a throsodd yn y cartref. Ar ddiwedd y cyfweiliad, gadawyd holiadur papur ar gyfer pawb y dywedwyd eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Yn 2006, defnyddiwyd yr un holiadur papur i gasglu’r wybodaeth gan gynrychiolydd y cartref hefyd gan y gollyngwyd y gyfres o gwestiynau am y Gymraeg o’r cyfweiliad gan adael yn unig y cwestiwn am allu siarad pawb.

Defnyddiwyd dau fath o holiadur, un ar gyfer plant dan 16, a’r llall ar gyfer pawb 16 oed neu’n hŷn. Disgwyliwyd i’r rhai 16 oed a throsodd ateb yr holiadur eu hunain ond roedd disgwyl i riant ymateb ar ran plant dan 12 oed tra, os oedd y plentyn dros yr oed hwnnw, fe gâi’r plentyn ymateb drosto ei hun pe bai’n dymuno a’i rieni yn fodlon. Roedd yr holiaduron i’w dychwelyd trwy’r post.

Gwnaed y gwaith maes rhwng mis Mawrth a mis: Hydref yn 2004, Tachwedd yn 2005 a Rhagfyr yn 2006.

18.3 Sampl

Cafodd y sampl ei strwythuro yn 2004 i roi sampl ar gyfer yr arolwg cyflwr tai dilynol a fyddai’n gynrychioladol yn genedlaethol ond hefyd i roi o leiaf 300 cyfweiliad ymhob awdurdod lleol ymhob blwyddyn, a 1,000 dros dair blynedd. Yn eithriadol yn 2004, anelwyd at gael bron 650 cyfweiliad yng Nghaerdydd, bron 500 yn Rhondda Cynon Taf ac Abertawe, ychydig dros 350 yng Nghaerffili a Sir Gaerfyrddin, a 300 ymhob man arall. Yn 2005 a 2006 pan nad oedd arolwg cyflwr tai i ddilyn, anelwyd at 300 cyfweiliad ymhob awdurdod. Defnyddiwyd AddressPoint yr Arolwg Ordnans fel ffrâm sampl.

18.4 Ymateb

Tabl 29 Manylion yr ymateb i'r cyfweiliadau

	Sampl cyfeiriadau	Cyfeiriadau dilys	Cyfweiliadau llwyddiannus	Cyfradd ymateb (cyfradd o'r cyfeiriadau dilys)	Siaradwyr Cymraeg holwyd trwy gyfweiliad
2004	12,635	11,413	7,504	59.4 (65.7)	1,312
2005	12,709	11,487	7,765	61.1 (67.6)	1,531
2006	11,970	10,733	7,405	61.9 (69.0)	-
Cyfanswm	37,314	33,633	22,674		2,843

Tabl 30 Manylion yr ymateb i'r holiaduron

	Holiaduron am y Gymraeg rannwyd		Holiaduron a ddychwelwyd yn ddigon cyflawn i'w defnyddio		Cyfradd ymateb i'r holiaduron	
	I oedolion	I blant	Oedolion	Plant	Oedolion	Plant
2004	1,372	1,252	798	627	58.2	50.1
2005	1,543	1,240	947	789	61.4	63.6
2006	2,644	989	1,610	551	60.9	55.7
Cyfanswm	5,559	3,481	3,355	1,967		

Tabl 31 Manylion o'r defnydd o'r Gymraeg a wnaed yn y cyfweiliadau a'r holiaduron a lenwyd yn Gymraeg

	Cyfweiliadau cartref†	Cyfweiliadau Cymraeg (fel % o'r cyfan)	Holiaduron: fersiynau Cymraeg a lenwyd (fel % o'r cyfan)	
			Oedolion	Plant
2004	7,526	35 (0.5)	156 (19.5)	67 (10.7)
2005	7,786	60 (0.8)	204 (21.5)	113 (14.3)
2006	7,443	108 (1.5)	535 (33.2)	116 (21.1)
Cyfanswm	22,755	203 (0.9)	895 (26.7)	296 (15.1)

† gan gynnwys cartrefi newydd a ddarganfuwyd yn y cyfeiriadau.

18.5 Amcangyfrif

Cyfrifwyd ffactorau pwysoli mewn 5 cam, fesul blwyddyn. Y tri cham cyntaf oedd i gyfrifo ffactorau i wneud lwfans am y tebygolrwydd i gyfeiriad gael ei ddewis ac i gartref o fewn cyfeiriad gael ei ddewis, ac wedyn i wneud lwfans am y diffyg ymateb a gafwyd i'r cyfweiliad. Gwnaed hyn gan ddefnyddio strata a ddiffiniwyd gan awdurdod lleol a phedwar math o eiddo: yn fras, tai cyflwr da, tai cyflwr gwael, fflatiau, ac eiddo nas cofnodwyd ei fath. Cyfrifwyd y ffactorau hyn gan gwmni GfK NOP. Y pedwerydd cam oedd cymharu'r canlyniadau â chanlyniadau Cyfrifiad 2001. Roedd gwahaniaethau bach o ran amcangyfrifon am ddeiliadaeth a chan hynny cyfrifwyd ffactorau i wneud lwfans am hyn ar lefel awdurdod unedol.

Y pumed cam oedd cyfrifo ffactorau i wneud lwfans am y diffyg ymateb a gafwyd i'r holiaduron. Fe'u cyfrifwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg gan ddefnyddio strata a

ddiffiniwyd gan ardal (8, yn cyfateb yn fras i ardaloedd y siroedd a fodolai tan 1996), a'r math o holiadur. Er y gall hynny wneud lwfans am amrywiaeth daearyddol yn yr ymateb nid yw'n golygu y bydd yr amcangyfrifon a gynhyrchir yn ddiuedd gan y gall fod perthynas rhwng peidio ag ymateb â llawer o ffactorau eraill. Er enghraifft, mae tystiolaeth ar gael am natur y diffyg ymateb i'r holiaduron trwy gymharu natur y cartrefi ymatebodd i'r cyfweliad â'r rhai ymatebodd i'r holiaduron hefyd (Tabl 32).

Tabl 32 Cyfansoddiad ieithyddol y cartref: cymhariaeth rhwng yr ymateb i'r cyfweliadau a'r holiaduron

Ffynhonnell:		
		Holiaduron a ddychwelwyd lle roedd y sawl atebodd ar ran y cartref yn y cyfweliad yn gallu siarad Cymraeg (ac yn siarad Cymraeg yn ôl yr holiadur)
Cyfansoddiad ieithyddol y cartref (pobl 3 oed a throsodd)	% o'r cartrefi (pwysoledig)	% o'r cartrefi (pwysoledig)
Pawb yn gallu siarad Cymraeg	68.6%	69.7
Rhai'n gallu siarad Cymraeg	31.4%	30.3
Cyfanswm	100.0%	100.0%
Sail (nifer yn ymateb)	4,112	3,356

18.6 Gwerthusiad dibynadwyedd

Tabl 33 Canran yn gallu siarad Cymraeg, yn ôl oedran: cymhariaeth rhwng Arolygon Defnydd Iaith 2004–06 (ar sail gwybodaeth a roddwyd gan ymatebydd y cartref) a Chyfrifiad 2001

Oedran	Canran	
	Cyfrifiad 2001 ⁴	Arolygon Defnydd Iaith 2004–06 ⁵
3 - 15	37.7	34.6
16 - 29	20.4	21.7
30 - 44	14.6	16.2
45 - 64	15.6	15.8
65+	19.5	17.9
Cyfanswm	20.8	20.6

Mae'r tabl canlynol yn cymharu'r canlyniadau ar lefel awdurdod lleol.

⁴ Yn byw mewn cartrefi a sefydliadau cymydol.

⁵ Yn byw mewn cartrefi.

Tabl 34 Gallu i siarad Cymraeg yn ôl awdurdod lleol (ar sail gwybodaeth a roddwyd gan ymatebydd y cartref)

Awdurdod lleol	% yn gallu siarad Cymraeg		Gwahaniaeth (pwyntiau canran)	Maint y sampl yn 2004-06
	Cyfrifiad 2001	Arolygon Defnydd iaith 2004-06		
Ynys Môn	60.1	61.3	1.2	2,351
Gwynedd	69.0	71.7	2.7	2,320
Conwy	29.4	32.6	3.2	2,291
Sir Ddinbych	26.4	29.4	3.0	2,265
Sir y Fflint	14.4	16.5	2.1	2,442
Wrecsam	14.6	14.4	-0.2	2,383
Powys	21.1	21.1	0.0	2,358
Ceredigion	52.0	48.9	-3.1	2,459
Sir Benfro	21.8	21.9	0.1	2,319
Sir Gaerfyrddin	50.3	47.7	-2.6	2,313
Abertawe	13.4	12.3	-1.1	2,513
Castell-nedd Port Talbot	18.0	15.9	-2.1	2,329
Pen-y-bont ar Ogwr	10.8	8.2	-2.6	2,369
Bro Morgannwg	11.3	9.2	-2.1	2,353
Rhondda Cynon Taf	12.5	12.1	-0.4	2,468
Merthyr Tudful	10.2	9.6	-0.6	2,381
Caerffili	11.2	8.1	-3.1	2,307
Blaenau Gwent	9.5	12.0	2.5	2,292
Torfaen	11.1	10.1	-1.0	2,359
Sir Fynwy	9.3	10.4	1.1	2,318
Casnewydd	10.0	8.6	-1.4	2,411
Caerdydd	11.0	12.1	1.1	3,262
Cyfanswm	20.8	20.5	-0.3	52,863

Ar ôl cael gwybod pwy yn y cartref oedd, ym marn yr ymatebydd, yn gallu siarad Cymraeg, aed ymlaen i holi'r rheini ymhellach, gan barhau â'r cyfweiliad yn achos yr ymatebydd yn 2004 a 2005 ond trwy ddefnyddio holiadur i'w ddychwelyd trwy'r bost gyda'r lleill (a'r ymatebydd yn 2006). Datgelodd yr holi pellach yma nad oedd pawb yn cytuno â barn ymatebydd y cartref am eu gallu yn y Gymraeg. Wrth brosesu data 2005 a 2006 daeth Ipsos MORI o hyd i gamgymeriad a wnaed yn 2004. Hwn oedd yn gyfrifol am y gwahaniaeth mawr a welwyd am blant 3 i 15 oed, ond hefyd am bobl ifanc 16 i 29 oed. Fel y gwelir isod (Tabl 35), ni chafwyd gwahaniaethau mor sylweddol yn 2005 a 2006.

Tabl 35 Siaradwyr Cymraeg yn ôl ymatebydd y cartref: eu gallu yn ôl hunan-arfarniad.

Canran				
Yn gallu siarad Cymraeg yn ôl ymatebydd y cartref				
Oedran	Ddim yn gallu siarad Cymraeg yn ôl hunan-arfarniad			Cyfanswm
	2004	2005	2006	
3 - 15	21.1	7.2	7.8	100.0
16 - 29	10.4	6.7	7.6	100.0
30 - 44	2.3	3.8	7.4	100.0
45 - 64	4.5	4.8	4.3	100.0
65+	3.1	1.9	3.4	100.0
Cyfanswm	10.1	5.2	6.1	100.0

Daw amcangyfrif gwahanol o'r nifer sy'n gallu siarad Cymraeg yn sgil hyn: 546 mil. Rhaid cofio mai proses un ffordd oedd yr holi: dim ond rhai a ystyried yn siaradwyr Cymraeg yn y lle cyntaf a holwyd ac o ganlyniad dim ond gostyngiad ar yr amcangyfrif cyntaf oedd yn bosibl. Cafwyd tystiolaeth yn Arolwg Cymdeithasol Cymru 1992 bod mwy o ymatebwyr yn anwybodol fod aelodau eraill y cartref yn gallu siarad Cymraeg nag sydd o ymatebwyr yn dweud bod aelodau eraill yn gallu siarad Cymraeg pan na allant mewn gwirionedd. Felly, pe bai rhai nad oedd yn gallu siarad Cymraeg, ym marn ymatebydd y cartref, hefyd wedi eu holi yn unigol, dichon y byddai'r amcangyfrif cyntaf wedi cynyddu yn lle gostwng.

18.6.1 Disgrifiad o'u gallu siarad

Ychydig dros hanner—54.7 y cant (317 mil)— y rhai a ystyrid yn siaradwr Cymraeg gan yr ymatebydd ar ran y cartref oedd yn ystyried eu hunain yn rhugl. O'r rhai a ystyriodd eu hunain eu bod yn gallu siarad Cymraeg, mae hyn yn cynrychioli 58.4 y cant. Mae'r ddwy ganran hyn yn arwain at amcangyfrifon o 11.1% - 12.0% ar gyfer canran y boblogaeth 3 oed a throsodd sydd yn ystyried eu hunain yn rhugl. Yn 1992, yn ôl Arolwg Cymdeithasol Cymru y Swyddfa Gymraeg 13.4 y cant oedd yn rhugl.

Ymhlyg yn yr amcangyfrif bod 12.0 y cant o'r boblogaeth gyfan dros 3 oed yn rhugl, mae amcangyfrif bod 16.2 y cant o'r boblogaeth 3 i 15 oed yn rhugl. Mae asesiadau y Cwricwlwm Cenedlaethol yn rhoi syniad am ba ganran y plant sydd yn dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf (sydd yn awgrymu gradd resymol o ruglder). Yn 2006 aseswyd 20.0 y cant o'r plant ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 1 (y rhan fwyaf yn 7 oed) mewn Cymraeg (iaith gyntaf). Y canrannau cyfatebol ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 (rhan fwyaf y plant yn 11 oed) a Chyfnod Allweddol 3 (y rhan fwyaf yn 14 oed) oedd 19.3 y cant a 15.7 y cant (Llywodraeth Cynulliad Cymru). Yn wyneb y ffigurau hyn, mae amcangyfrif bod 16.2 y cant o'r boblogaeth 3 i 15 oed yn rhugl yn ymddangos yn rhesymol.

18.6.2 Siaradwyr Cymraeg mewn gwaith

Roedd 48 y cant (92 mil) o'r siaradwyr Cymraeg 16 oed neu'n hŷn mewn gwaith yn gweithio yn y sector cyhoeddus yn ôl yr Arolwg Defnydd a 52 y cant (99 mil) yn gweithio yn y sector preifat (gan gynnwys y sector gwirfoddol). Yn ôl Arolwg Blynyddol y Boblogaeth yn 2005, roedd 34 y cant (107 mil) yn gweithio yn y sector cyhoeddus a 66 y cant (203 mil) yn gweithio yn y sector preifat (gan gynnwys y sector gwirfoddol).

Gwelir o hyn bod cyfanswm amcangyfrifon yr Arolygon Defnydd am niferoedd y siaradwyr Cymraeg oedd yn gweithio yn y ddau sector, 191 mil, dros 38 y cant yn is nag amcangyfrif Arolwg Blynyddol y Boblogaeth (310 mil). Mae rhan fwyaf y gwahaniaeth yn y niferoedd yn ganlyniad i'r ffaith fod amcangyfrif yr Arolygon Defnydd am y ganran oedd yn gallu siarad Cymraeg 31 y cant yn is nag amcangyfrif Arolwg Blynyddol y Boblogaeth: 19.1 y cant (gweler y blwch yn Adran 3) o'i gymharu â 26.7 y cant.

Mae'r ddau arolwg yn rhoi amcangyfrifon go wahanol o'r rhaniad rhwng y sectorau: 48 y cant yn gweithio yn y sector cyhoeddus yn ôl yr Arolygon Defnydd o'i gymharu â 34 y cant yn 2005 yn ôl Arolwg Blynyddol y Boblogaeth. Roedd canran is, 27 y cant, o'r rhai nad oeddent yn gallu siarad Cymraeg, yn gweithio yn y sector cyhoeddus, yn ôl Arolwg Blynyddol y Boblogaeth. Gallai hyn fod yn adlewyrchu eto y ffaith bod Arolwg Blynyddol y Boblogaeth wedi cynhyrchu amcangyfrif uchel ar gyfer y ganran oedd yn gallu siarad Cymraeg (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2004), a nodweddion siaradwyr Cymraeg Arolwg y Llafur o'r herwydd yn debycach i nodweddion rhai di-Gymraeg nag a geir yn yr Arolygon Defnydd Iaith.

19. Llyfryddiaeth a chyfeiriadau

Arolwg Blynyddol y Boblogaeth 2005. Dadansoddiad arbennig gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Manylion a pheth data ar gael o: <http://www.statscymru.cymru.gov.uk/>

Basque Statistics Office (2003). *Population and Housing Census 2001*. <http://www.eustat.es/>

Central Statistics Office Ireland (2007). *Census 2006 Results Volume 9 – Irish language*. http://www.cso.ie/census/census2006_volume9.htm

Llywodraeth Cynulliad Cymru. Bwletin Ystadegol SB2/2007. *Y Gymraeg yn yr ysgol 2006*.

Statistics Canada (2007:1). *Topic-based tabulations, 2006 Census, 20% sample data*. <http://www.statcan.ca/>

Statistics Canada (2007:2). *Language highlight tables, 2006 Census*. <http://www.statcan.ca/>

Swyddfa Ystadegau Gwladol (2004). *Gwahaniaethau mewn amcangyfrifon sy'n ymwneud â sgiliau yn yr iaith Gymraeg*. http://www.statistics.gov.uk/downloads/theme_compendia/foc/WelshLanguage_Welsh.pdf

Y Swyddfa Gymreig (1995). *Arolwg Cymdeithasol Cymru, 1992: Adroddiad ar yr iaith Gymraeg*. Y Swyddfa Gymreig: Caerdydd. <http://www.bwrdd-yr-iaith.org.uk/>

Defnyddiwyd dadansoddiadau newydd Arolwg 1992 ar gyfer yr adroddiad hwn gan ddefnyddio'r data a lwythwyd o Archif Data y DU:

<http://www.data-archive.ac.uk/findingData/snDescription.asp?sn=3435>

20. Copi o'r holiadur a ddefnyddiwyd gydag oedolion

1 Allwch chi ddeall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg?
TICIWCH BOB UN SY'N BERTHNASOL

- Siarad Cymraeg
- Deall Cymraeg llafar
- Darllen Cymraeg
- Ysgrifennu Cymraeg
- Dim un o'r uchod

Os NAD ydych wedi ticio 'Siarad Cymraeg' does dim mwy o gwestiynau i'w hateb. Diolch i chi am gyfrannau. Dychwelwch yr holiadur yn yr amlen a ddarparwyd.

OS YDYCH YN GALLU SIARAD CYMRAEG

2 Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio eich gallu yn y Gymraeg orau?
TICIWCH UN BLWCH YN UNIG

- Rwy'n rhugl yn Gymraeg
- Gallaf siarad cryn dipyn o Gymraeg
- Dim ond ychydig o Gymraeg y gallaf ei siarad
- Dim ond ychydig o eiriau y gallaf eu dweud

3 Ble yn bennaf dysgoch chi siarad Cymraeg?
TICIWCH UN BLWCH YN UNIG

- Gartref
- Yn yr ysgol
- Rhywle arall (rhowch fanyllion isod)

4 Pa mor dda oedd yr aelodau canlynol o'r teulu yn gallu siarad Cymraeg pan oeddech chi'n blentyn?
TICIWCH UN BLWCH YR UN AR GYFER a), b) A c)

		Cymraeg Rhugl	Eithaf Rhugl	Rhywfaint o Gymraeg	Dim Cymraeg	Ddim yn gwybod	Amherthnasol
a)	Tad	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
b)	Mam	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
c)	Brawd (brodyr)/chwaer (chwirydd)	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

5 Pa iaith byddwch chi'n ei siarad yn bennaf yn y sefyllfaoedd canlynol...?
TICIWCH UN BLWCH AR GYFER POB SEFYLLFA

		Bob amser/ bron bob amser yn Gymraeg	Cymraeg yn bennaf	Cymraeg a Saesneg yn weddol gyfartal	Saesneg yn bennaf	Bob amser/ bron bob amser yn Saesneg	Arall	Amherth- nasol
a)	Gartref	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
b)	Yn yr ysgol, coleg neu brifysgol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Siarad â pherthnasau – gyda'ch:								
c)	Tad	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
ch)	Mam	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
d)	Mab (meibion)/Merch(ed)	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
dd)	Gŵr/gwraig/partner	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
e)	Nain/Mam-gu a Taid/Tad-cu	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
f)	Perthnasau eraill	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
ff)	Gyda ffrindiau	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
g)	Gyda'r cymydog agosaf	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
ng)	Ar gyfer gweithgareddau bob dydd fel siopa neu fynd ar y bws	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
h)	Yn y capel/eglwys	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

6 Gan feddwl am y sgwrs ddiweddaraf a gawsoch gyda rhywun nad yw'n perthyn i'ch teulu, pa iaith wnaethoch chi ei siarad?
TICIWCH UN BLWCH YN UNIG

Cymraeg

Saesneg

Arall (Ticiwch y blwch a rhowch fanylion isod)

7 Ydych chi'n siarad Cymraeg bob dydd, bob wythnos, llai aml neu byth?
TICIWCH UN BLWCH YN UNIG

Bob dydd

Bob wythnos

Llai aml

Byth

8 Pa mor dda ydych chi'n gallu ysgrifennu Cymraeg?
TICIWCH UN BLWCH YN UNIG

Yn dda iawn

Yn dda

Ddim yn dda

Dim o gwbl

9 Beth oedd iaith eich addysg ar bob un o'r camau canlynol...?
TICIWCH LN BLWCH AR GYFER POB SEFYLLFA

	Cymraeg yn unig	Cymraeg yn bennaf	Cymraeg a Saesneg yn weddol gyfartal	Saesneg yn bennaf	Saesneg yn unig	Arall	Amherthnasol
a) Cyn-ysgol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
b) yn yr ysgol Gynradd	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
c) yn yr ysgol Uwchradd	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
ch) Addysg Bellach	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
d) Addysg Uwch	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

10 Ac a gawsoch chi eich geni yng Nghymru?
TICIWCH LN BLWCH YN UNIG

- Do
- Naddo
- Ddim yn gwybod

11 Os na chawsoch eich geni yng Nghymru, beth oedd eich oed pan ddaethoch i fyw i Gymru'n barhaol?
YSGRIFENNWCH YR OED

Ddim yn gwybod

OS YDYCH CHI'N 16 OED NEU DROSODD AC YN GWEITHIO, LLENWCH YR ADRAN NESAF OS GWELWCH YN DDA. FEL ARALL, DIOLCH I CHI AM LENWI'R HOLIADUR. BYDDWCH GYSTAL Â'I DDYCHWELYD YN AWR YN YR AMLEN A DDARPERIR.

CYMRAG A CHYFLOGAETH

12 Sawl person sy'n gweithio i'ch cyflogwr yn y man lle rydych yn gweithio?
TICIWCH LN BLWCH YN UNIG. OS NAD YDYCH YN SIWR, RHOWCH AMCANGYFRIF O'R DEWISIADAU ISOD.

13 Beth yw cyfanswm nifer y gweithwyr sy'n gweithio i'ch cyflogwr, gan gynnwys lleoliadau a changhennau eraill?
TICIWCH LN BLWCH YN UNIG. OS NAD YDYCH YN SIWR, RHOWCH AMCANGYFRIF O'R DEWISIADAU ISOD.

	C12	C13
1-4	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
5-10	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
11-24	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
25-49	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
50-249	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
250-499	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
500 neu ragor	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ddim yn gwybod ond llai na 50	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ddim yn gwybod ond 50 neu'n fwy	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ddim yn gwybod	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Dim lleoliadau/canghennau eraill	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

14 Ac a ydych chi'n cael eich cyflogi yn y sector cyhoeddus, preifat neu wirfoddol?
TICIWCH UN BLWCH YN UNIG

- Prefat
- Gwirfoddol
- Cyhoeddus
- Ddim yn gwybod

15 Gan feddwl am y bobl y mae gennych gyswilt rheolaidd â nhw yn y gwaith, faint ohonynt sy'n gallu siarad Cymraeg? TICIWCH UN BLWCH YR UN AR GYFER a) | ch)

	Y rhan fwyaf yn siarad Cymraeg	Rhai yn siarad Cymraeg	Neb yn siarad Cymraeg	Amherthnasol
a) Goruchwylwyr/rheolwyr llinell	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
b) Cydweithwyr y mae gennych gyswilt dyddiol â nhw	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
c) Y bobl yr ydych chi'n eu goruchwyllo/rheoli yn uniongyrchol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
ch) Cleientiaid	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

16 A chyda'r rhai sy'n gallu siarad Cymraeg, pa iaith byddwch chi'n ei defnyddio gyda nhw fel arfer i drafod gwaith?
TICIWCH UN BLWCH YR UN AR GYFER a) | ch)

	Cymraeg yn bennaf	Rhywfaint o Gymraeg	Dim Cymraeg	Amherthnasol
a) Goruchwylwyr/rheolwyr llinell	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
b) Cydweithwyr y mae gennych gyswilt dyddiol â nhw	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
c) Y bobl yr ydych chi'n eu goruchwyllo/ rheoli yn uniongyrchol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
ch) Cleientiaid	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

17 Yn eich sefyllfa waith, pa iaith sy'n cael ei defnyddio i wneud y gwaith gweinyddu cyffredinol ac ar gyfer cyfathrebu MIEWNOL?
TICIWCH UN BLWCH YN UNIG

- Cymraeg yn bennaf
- Cymraeg a Saesneg yn eithaf cyfartal
- Saesneg yn bennaf
- Iaith(ieithoedd) eraill (ticiwch y blwch a rhowch fanylion isod)
-
- Amherthnasol
- Ddim yn gwybod

18 Fyddwch chi'n ysgrifennu unrhyw beth yn Gymraeg yn y gwaith?
TICIWCH UN BLWCH YN UNIG

- Byddaf – yn rheolaidd
- Byddaf - weithiau
- Byth
- Amherthnasol

19

Ydy'ch cyflogwr erioed wedi cynnig hyfforddiant i chi i wneud unrhyw rai o'r canlynol?

TICIWCH BOB BLWCH SY'N BERTHNASOL

- Gwella'ch Cymraeg llafar
- Gwella'ch Cymraeg ysgrifenedig
- Datblygu sgiliau arbennig yn Gymraeg (e.e. ateb y ffôn, cyfieithu)
- Nac ydy, ddim wedi cynnig dim erioed
- Ddim yn gwybod

20

Ydy'ch cyflogwr erioed wedi cynnig neu wedi trefnu hyfforddiant cysylltiedig-â-gwaith a roddir yn y Gymraeg?

TICIWCH UN BLWCH YN UNIG

- Ydy
- Nac ydy
- Ddim yn gwybod

21

Ac a ydy'ch cyflogwr wedi cynnig bathodyn i chi i'w wisgo i ddangos eich bod yn gallu siarad Cymraeg (e.e. Bathodyn Iaith Gwaith)?

TICIWCH UN BLWCH YN UNIG

- Ydy
- Nac ydy
- Ddim yn gwybod

22

Fyddech chi'n fodlon gwisgo bathodyn petaech yn cael cynnig un?

TICIWCH UN BLWCH YN UNIG

- Byddwn
- Na fyddwn
- Ddim yn gwybod

23

Pa un o'r datganiadau hyn, yn eich tyb chi, sy'n disgrifio eich cyflogwr orau?

TICIWCH UN BLWCH YN UNIG – COFIWCH, BYDD EICH ATEBION YN CAEL EU TRIN YN GWBL GYFRINACHOL

- Yn gefnogol i'r defnydd o'r Gymraeg yn y rhan fwyaf o agweddau'r busnes, yn ffurfiol ac yn anffurfiol
- Yn gefnogol i'r defnydd o'r Gymraeg yn anffurfiol ond nid mewn materion busnes ffurfiol
- Ddim yn gefnogol i'r defnydd o'r Gymraeg
- Dim un o'r rhain
- Ddim yn gwybod

21. Copi o'r prif ddarn oedd yn wahanol yn yr holiadur a ddefnyddiwyd gyda phlant

ATEBWCH GWESTIWN 9 OS YW EICH PLENTYN YN YR YSGOL UWCHRADD – FEL ARALL EWCH I GWESTIWN 10.

9 Ym mha iaith y dysgir y pynciau canlynol i'ch plentyn yn yr ysgol uwchradd?
TICIWCH UN BLWCH AR GYFER POB SEFYLLFA

	Bob amser/ bron bob amser yn Gymraeg	Cymraeg yn bennaf	Cymraeg a Saesneg yn weddol gyfartal	Saesneg yn bennaf	Bob amser/ bron bob amser yn Saesneg	Arall	Amherth-nasol
a) Mathemateg	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
b) Gwyddoniaeth	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
c) Daearyddiaeth	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
ch) Astudiaethau Crefyddol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
d) Astudiaethau Busnes	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
dd) Celf/Crefft	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
e) Cymraeg	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
f) Hanes	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
ff) Addysg Gorfforol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
g) Ieithoedd Modern	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

PAWB I ATEB

10 Ac a gafodd eich plentyn ei eni yng Nghymru?
TICIWCH UN BLWCH YN UNIG

- Do
- Naddo
- Ddim yn gwybod

ATEBWCH OS NA CHAFODD EI ENI YNG NGHYMRU

11 Os na chafodd eich plentyn ei eni yng Nghymru, beth oedd ei (h)oed pan ddaeth i fyw i Gymru'n barhaol?

- YSGRIFENNWCH YR OED
- Ddim yn gwybod

12 Ticiwch flwch isod i ddangos pwyl lenwodd yr holiadur, y plentyn sydd â'i enw ar flaen yr holiadur neu'r rhiant/gwarcheidwad?
TICIWCH UN BLWCH YN UNIG

- Plentyn
- Rhiant / Gwarcheidwad

Y rhiant i arwyddo yma os bydd y plentyn yn llenwi'r holiadur
